# COMISIYNYDD PLANT I GYMRU

# Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR

Clustnododd Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn unfrydol waith ar y cynigion am Gomisiynydd Plant Annibynnol fel un o'u prif flaenoriaethau yn dilyn ethol y Pwyllgor y llynedd. Mae pob un o'r pedair plaid a gynrychiolir yn y Cynulliad yn cefnogi'r cynigion.

Rydym wedi ymgynghori'n eang wrth lunio'n cynigion, ac rydym wedi edrych ar batrymau mewn gwledydd eraill. Rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb i'r ymarferiad ymgynghori ac a wnaeth gyflwyniadau llafar. Maent wedi chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu tystiolaeth ac mae ein hargymhellion yn seiliedig ar y dystiolaeth honno.

Bydd y Comisiynydd Plant hefyd yn effeithio ar bortffolio Ysgrifenyddion y Cynulliad a phwyllgorau heblaw am Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n dda gennyf fod y Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar wedi cydweithio â ni ar hyn. Cynrychiolodd Lorraine Barrett y Pwyllgor hwnnw mewn llawer o'n cyfarfodydd ac rwyf yn ddiolchgar am ei chyfraniad.

Nid adroddiad y Pwyllgor yw diwedd y gwaith, ond yn hytrach y sylfeini a fydd yn sail i adeiladu rôl y Comisiynydd. Bydd y Pwyllgor yn chwarae rhan bellach wrth ddatblygu'r swydd a monitro'i heffeithlonrwydd.

Rydym wedi argymell fod plant yn chwarae rhan yn y broses o benodi Comisiynydd ac yr ystyrir ymhellach y posibilrwydd o roi rhan iddynt ei chwarae yn y broses ymgynghori ar raglen waith y Comisiynydd. Rwyf yn gobeithio y bydd hyn yn cyffroi plant a phobl ifanc ac y byddant yn teimlo fod y Comisiynydd yn perthyn iddynt. Rhaid i'w rhan fod yn un go iawn.

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, mae camau ar y gweill i sefydlu pwerau statudol cychwynnol i'r Comisiynydd, drwy'r Mesur Safonau Gofal. Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru am hwyluso hyn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r swyddogion yn Is-adran Plant a Theuluoedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru am eu gwaith caled a'u hymrwymiad wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor.

**KIRSTY WILLIAMS**

## CADEIRYDD

## CRYNODEB

1. Mae'r Pwyllgor hwn yn cefnogi'n llawn brif egwyddorion hawliau plant fel y'u diffinnir yng Nghytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

2. Rhoddodd Cytundeb y Cenhedloedd Unedig wybodaeth ar y cyd-destun a fu'n sail i'r gorchwyl hwn, sef ein hymrwymiad i hawliau pob plentyn a pherson ifanc i gael eu trin fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned a bod rhaid datblygu'n llawn eu potensial drwy bolisïau a gwasanaethau priodol a chynrychioli eu buddiannau mewn modd ystyrlon.

3. Credwn fod y Comisiynydd Plant, sy'n gweithredu o fewn fframwaith statudol annibynnol, yn hanfodol i fwrw ymlaen â'r dyheadau hyn yng Nghymru, ac y bydd yn arwyddocaol yn hynny o beth.

4. Wrth wraidd ein hangen am Gomisiynydd y mae'r angen i bob un ohonom wrando ar bob plentyn a pherson ifanc; i fod ag ymrwymiad i adlewyrchu eu sylwadau a'u dymuniadau; ac, wrth wneud hynny, diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed.

5. Rydym am i'r Comisiynydd sicrhau y gwrandewir ar blant a phobl ifanc ac y'u galluogir i chwarae rhan weithgar wrth bennu'r gwasanaethau a'r cyfle a gynigir iddynt; yr ystyrir eu hanghenion a'u sylwadau ar draws yr ystod o brosesau llunio polisi, cynllunio a darparu ar gyfer pob gwasanaeth perthnasol.

6. Felly, rhaid i blant a phobl ifanc chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwaith ac agenda'r Comisiynydd. Rhaid rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau fod y Comisiynydd yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn rheolaidd ac yn barhaus.

7. Rhaid i blant a phobl ifanc deimlo fod y Comisiynydd yn eu cefnogi; y person sydd bob amser yn parchu eu safbwynt ac sy'n ymladd ar eu rhan. Rhaid i blant a phobl ifanc weld y Comisiynydd fel rhywun sydd:

- yn ymladd dros ac yn diogelu eu hawliau;
- yn sicrhau y clywir ac y deëllir eu safbwynt am *bopeth* sy'n effeithio arnynt;
- yn sicrhau y gallant gwyno'n effeithiol;
- ar gael bob amser i gynnig cyngor a gwybodaeth neu sy'n medru dweud wrth blant a phobl ifanc ble i ddod o hyd iddynt;
- yn medru cynorthwyo plant a phobl ifanc yn uniongyrchol os yw'r materion dan sylw yn gymhleth neu'n bwysig iawn, er enghraifft drwy ymchwilio i gwyn arbennig neu helpu â chostau mynd i'r llys.

## CYFLWYNIAD

8. Sefydlwyd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 8. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys pob agwedd ar ofal iechyd, hybu iechyd/atal afiechyd; diogelwch bwyd; gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Ysgrifennydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb am y maes hwn yw Jane Hutt AC.

9. Aelodaeth y Pwyllgor o fis Gorffennaf 1999 tan 29 Mawrth 2000 oedd:

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Dem. Rhyddfrydol |
| Brycheiniog a Sir Faesyfed | |
| Geraint Davies | Plaid Cymru |
| Rhondda | |
| Brian Gibbons | Llafur |
| Aberafan | |
| Jane Hutt | **Ll**afur |
| **(Ysgrifennydd y Cynulliad)** | |
| Bro Morgannwg | |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru |
| Llanelli | |
| David Rhys Lloyd | Plaid Cymru |
| Gorllewin De Cymru | |
| David Melding | Ceidwadwr |
| Canol De Cymru | |
| Lynne Neagle | Llafur |
| Tor-faen | |

| | |
|---|---|
| Peter Rogers | Ceidwadwr |
| Gogledd Cymru | |
| Gwenda Thomas | Llafur |
| Castell-nedd | |

10. Nid oedd Brian Gibbons, Peter Rogers a Gwenda Thomas yn aelodau bellach ers 29 Mawrth; daeth Ann Jones, Llafur, Dyffryn Clwyd ac Alun Pugh, Llafur, Gorllewin Clwyd yn aelodau ar y dyddiad hwnnw.

11. Mae’r Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar yn chwarae rhan hefyd wrth ystyried y cynnig am Gomisiynydd Plant ac mae’r adroddiad hwn yn ystyried eu barn.

**CEFNDIR**

12. Gwnaed achos dros sefydlu Comisiynydd Plant yn rhannol yn y Papur Gwyn ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru *Adeiladu ar gyfer y Dyfodol* a addawodd ymgynghori ar sefydlu Comisiynydd annibynnol o bosibl fel un o’r opsiynau ar gyfer cryfhau trefniadau eiriolaeth a chwynion o ran plant y gofelir amdanynt gan awdurdodau lleol. Hefyd, mae galw wedi bod am y fath ddatblygiad gan:

- Plant yng Nghymru – y corff ymbarél sy’n cynrychioli sefydliadau sy’n gweithio ar ran plant;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a anogodd ystyried Comisiynydd annibynnol yn *Datblygu Strategaeth ar gyfer Plant mewn Angen* (1998), yn arbennig felly i wella gwasanaethau a sicrhau eiriolaeth i blant;
- Rhai o’r rheini a roddodd dystiolaeth yn 1997 a 1998 i Dribiwnlys Cam-drin Plant Gogledd Cymru a siaradodd am yr angen am Gomisiynydd yng Nghymru;
- Y Pwyllgor Materion Cymreig a anogodd y Cynulliad drwy ei adroddiad *Gofal Plant yng Nghymru* (1999 : HC156) i benodi Comisiynydd Plant yn ddi-oed.

13. Roedd ymrwymiadau ym maniffestos y Cynulliad yn cynnwys y canlynol:

- "sefydlu Comisiynydd Plant annibynnol i Gymru a fydd yn cynghori’r Cynulliad ar gyflwyno gwasanaethau i blant." *Llafur*
- "ystyried penodi Comisiynydd Plant a fyddai: yn rhoi gwybodaeth a chyngor i’r Cynulliad ar faterion sy’n ymwneud â phlant; yn sicrhau fod polisïau o bob math yn cydfynd â lles plant; ac yn goruchwylio datblygu Strategaethau Gofal Plant yn lleol ac yn genedlaethol." *Plaid Cymru*
- "penodi Comisiynydd Plant â phwerau i ymchwilio i’r modd yr ymdrinnir yn lleol ag unrhyw

gwyn am wasanaethau cyhoeddus neu wirfoddol a ddaw oddi wrth blentyn".*Democratiaid Rhyddfrydol*

Mae’r Blaid Geidwadol, o ganlyniad, wedi cefnogi egwyddor y Comisiynydd Plant.

14. Hefyd, argymhellodd Syr Ronald Waterhouse, yn ei adroddiad *Ar Goll mewn Gofal*, y dylid penodi Comisiynydd Plant i Gymru ac y byddai ei rôl yn cynnwys :

- sicrhau y perchir hawliau plant drwy fonitro a goruchwylio’r modd y gweithredir y trefniadau cwyno ac achwyn, a’r trefniadau ar gyfer eiriolaeth i blant;
- archwilio’r modd yr ymdrinnir ag achosion unigol a ddaw gerbron y Comisiynydd (gan gynnwys argymhellion ar haeddiannau’r achos) pan fo’n ystyried hynny’n angenrheidiol a phriodol; a
- chyhoeddi adroddiadau, gan gynnwys adroddiad blynyddol i’r Cynulliad.

**CYLCH GWAITH Y PWYLLGOR**

15. Cylch gwaith y Pwyllgor oedd ystyried a gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gylch gwaith, rôl a swyddogaethau’r Comisiynydd Plant i Gymru ac yn benodol:

- maint y diffygion yn y trefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau i blant y gallai Comisiynydd ymateb iddynt;
- y graddau y mae’r fath swydd yn gorymylu ar drefniadau presennol neu arfaethedig eraill i ymdrin â chwynion plant neu i hyrwyddo eu buddiannau;
- beth y gallai cylch gwaith, rôl a swyddogaethau’r Comisiynydd fod;
- a ellid penodi Comisiynydd ar sail anstatudol;
- a fyddai angen awdurdod statudol, a beth fyddai ffurf yr awdurdod hwnnw;
- amcangyfrif o’r costau a sut y gellid eu bodloni;
- pa flaenoriaeth y gallai’r Cynulliad ei rhoi i sefydlu’r fath swydd; ac
- i bwy y byddai’r Comisiynydd yn atebol.

**AMSERLEN**

16. Gwahoddwyd y Pwyllgor gan Ysgrifennydd y Cynulliad i gymryd y cylch gwaith uchod ym mis Gorffennaf 1999. Ymgymerodd y Pwyllgor ag ymarferiad ymgynghori o fis Hydref i fis Mawrth er mwyn dod i gasgliadau terfynol a gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cynulliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.

**YMGYNGHORIAD**

17. Gwahoddodd y Pwyllgor gyflwyniadau ysgrifenedig a derbyniodd 94 ymateb. Ceir y llythyr ymgynghori a rhestr lawn o’r rhai a ymatebodd yn Atodiad A a B. Mae copïau o’r ymatebion ar gael yn

Llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Hefyd, clywodd y Pwyllgor gyflwyniadau llafar gan:

- Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (sy'n ymgorffori ei rôl arall fel Comisiynydd y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru)
- Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru
- yr NSPCC
- Lleisiau mewn Gofal
- Barnardos
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
- Ymddiriedolaeth NHS Gogledd-Orllewin Cymru
- Awdurdod Iechyd Morgannwg
- Coleg Brenhinol y Pediatryddion ac Iechyd Plant
- Cymdeithas Ymarferwyr Cymuned ac Ymwelwyr Iechyd

18. Ceir y cofnodion Pwyllgor perthnasol sy'n cofnodi ystyriaeth y Pwyllgor yn Atodiad C.

19. Clustnododd yr ymgynghoriad y meysydd canlynol o gydsyniad cyffredinol:

**Diffygion y trefniadau presennol:**

- Nid oes unrhyw strategaeth ar gyfer darparu golwg gyffredinol ar wasanaethau; mentrau a chyfundrefnau ariannu, sy'n arwain at chwilfriwiad a bylchau yn y ddarpariaeth.
- Nid oes mecanweithiau i alluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael effaith ar eu bywydau, er bod Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cydnabod yr angen am hyn; ac
- Mae diffyg cymorth uniongyrchol cynaliadwy i blant a phobl ifanc difreintiedig neu sydd wedi'u hepgor yn gymdeithasol, yn arbennig felly o ran systemau eiriolaeth a chwyno effeithiol.

**Gorymylu ar drefniadau eraill:**

- Mae'n bosibl y bydd y swydd yn gorymylu ar swyddogaethau y mae nifer fawr o drefniadau statudol ac anstatudol eraill yn eu cyflawni, gan gynnwys pwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad, awdurdodau lleol, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu, Comisiynydd y Gwasanaeth Iechyd, y Comisiynydd dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, y Llysoedd, yr Arolygiaeth Safonau Gofal a fwriedir, ac amryw o asiantaethau gwirfoddol ar lefel strategol a gweithredol; ac
- Felly, mae'n hanfodol bod cwmpas y swydd Comisiynydd yn cael ei sefydlu o fewn fframwaith cydlynol wedi'i ddiffinio'n dda.

**Rôl, cylch gwaith a swyddogaethau:**

Dylai'r Comisiynydd

- hyrwyddo a monitro gweithredu Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys mecanweithiau lle y gellir mynegi pryderon ac anghenion y plant a'r bobl ifanc yn uniongyrchol;
- ystyried a gwneud sylwadau ar effaith polisïau ar blant a phlant ifanc a hyrwyddo cydlynu gweithgarwch y llywodraeth ar bob lefel;
- cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r Cynulliad ar sefyllfa plant a phobl ifanc yng Nghymru a darparu gwasanaethau yn gyffredinol;
- cychwyn ymchwil a dosbarthu gwybodaeth ac arfer da;
- monitro pa mor effeithiol a hwylus yw'r gwasanaethau eiriolaeth a chwynion a sicrhau fod gan unigolion fodd effeithiol o unioni sefyllfa lle'r anwybyddir yr hawliau;
- gwella amlygrwydd ac agweddau'r cyhoedd tuag at blant a phobl ifanc;
- darparu pwynt cyswllt uniongyrchol sy'n hwylus i blant a phobl ifanc sy'n cynnig gwasanaethau dwyieithog a hyrwyddo cyfle cyfartal wrth gydnabod anghenion unigol eraill; a;
- gweithredu fel cefnogwr, gwarchodwr ac achwynwr.

**Sail statudol neu anstatudol:**

- Er mwyn bod yn gredadwy, rhaid i'r swydd fod yn un statudol, er bod cefnogaeth sylweddol i sefydlu'r swydd ar sail anstatudol yn y lle cyntaf, os byddai, fel arall, yn golygu oedi oherwydd yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol.

**Cwmpas yr awdurdod statudol:**

- Mynegwyd gwahanol safbwyntiau o ran gwahanol weledigaethau o rôl, cylch gwaith a swyddogaethau'r swydd ond nid oedd cydsyniad ar y manylion. Fodd bynnag, roedd cydsyniad cyffredinol y dylai Comisiynydd uniaethu ei hun â swydd annibynnol anwleidyddol.

**Costau:**

- Beth bynnag fo'r costau, dylent ddod o dan arian newydd sydd wedi'u cloriannu a'u darparu'n ganolog gan y Cynulliad.
- Bydd lefel yr arian y bydd eu hangen yn dibynnu ar gwmpas y swydd a byddai, o bosibl, yn amrywio o £200 mil i £740 mil, ond y prif egwyddor yw fod yn rhaid iddynt fod yn ddigon i gyflawni'n llwyddiannus yr hyn a sefydlir yn rôl, cylch gwaith a swyddogaethau'r swydd.

**Blaenoriaeth:**

- Dylai'r Cynulliad roi blaenoriaeth uchel i sefydlu'r swydd er mwyn cadarnhau ei ymrwymiad i wella ansawdd bywyd plant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Atebolrwydd:**

- Dylai’r swydd fod yn annibynnol ac anwleidyddol, er bod barn amrywiol ar y manylion o ran sut mae cyflawni hyn yng nghyd-destun y sawl y dylai’r Comisiynydd fod yn atebol iddo.

## CASGLIADAU AC ARGYMHELLION Y PWYLLGOR

20. Mae argymhellion y Pwyllgor, ar ôl ystyried cyflwyniadau a chyngor llafar ac ysgrifenedig, fel a ganlyn.

### Diffygion y trefniadau presennol

21. Ystyriwn mai’r cyfiawnhad pennaf dros sefydlu Comisiynydd Plant yw diffyg mecanweithiau i alluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu yn uniongyrchol ar benderfyniadau sy’n cael effaith ar eu bywydau. Yn aml, ni chlywir eu llais oherwydd nad oes ganddynt yr hawl i bleidleisio a’u bod, i ryw raddau neu’i gilydd, yn ddibynnol ar yr oedolion sydd o’u hamgylch. Po fwyaf fo’r graddau y mae’r plant a’r bobl ifanc o dan anfantais, po leiaf y clywir eu lleisiau. Dangoswyd hyn i’r graddau mwyaf eithafol yn achos y bobl ifanc a gamdriniwyd mewn gofal. Adroddir eu hanes yn eglur yn Adroddiad Waterhouse. Mae’r Comisiynydd yn rhoi’r gobaith o roi llais i bobl ifanc yn unol â Chytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

### Gorymylu ar drefniadau eraill

22. Mae’r Pwyllgor yn cydnabod y gallai rôl gyffredinol y Comisiynydd arwain at yr argraff fod gorymylu ar swyddogaethau ystod eang o swyddi a chyrff eraill. Credwn na ddylai’r Comisiynydd geisio cymryd lle’r systemau cwyno sydd eisoes mewn bodolaeth nac ymchwilio achosion yn uniongyrchol; yn hytrach, dylid sicrhau fod y systemau hyn yn gweithio’n effeithiol. Bydd deiliad y swydd am gydweithio â’r swyddfeydd presennol, megis Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

23. Yn yr un modd, tra y dylai fod mecanwaith i sicrhau fod argymhellion y Comisiynydd yn cael yr effaith fwyaf, mae’n bwysig nad yw’r llinellau atebolrwydd yn annelwig oherwydd bodolaeth y Comisiynydd.

24. Gallai’r mecanwaith i sicrhau y byddai’n rhaid ystyried argymhellion y Comisiynydd fod ar ffurf ‘hysbysiad cydymffurfiaeth’ sy’n cael ei ffafrio gan lawer o’r ymatebion ymgynghori. Gellid rhyddhau hysbysiad cydymffurfiaeth gan y Comisiynydd ac fel y gwêl yn dda o ganlyniad i’r argymhellion yn ei adroddiad. Gallai’r trefniadau canlynol fod yn berthnasol:

- Rhaid i’r corff/person, y cyfeirir yr argymhelliad ato, ei ystyried a hysbysu’r Comisiynydd o fewn cyfnod penodol o’r gweithredu sydd wedi digwydd neu a fydd yn digwydd mewn ymateb; a rhoi cadarnhad o’r gweithredu neu’r gweithredu a fwriedir fel y bo’r galw;
- Os yw’r fath gorff/person yn bwriadu peidio â chydymffurfio â’r argymhelliad, rhaid iddo hysbysu’r Comisiynydd paham;

- Os nad yw'r Comisiynydd yn ystyried fod y rheswm yn un dilys, rhaid i'r Comisiynydd roi rhybudd i'r corff/person y bydd y methiant i gydymffurfio yn cael ei gyhoeddi; a
- Dylai'r Comisiynydd gadw cofrestr gyhoeddus o argymhellion ac achosion o ddiffyg cydymffurfio.

25. Ystyriwn fod angen i'r fath fecanwaith fod yn berthnasol i'r un graddau fel dyletswydd i bob corff a pherson y gallai'r Comisiynydd gyfeirio'i argymhellion atynt, gan gynnwys y Cynulliad.

26. Awgrymwn, yn gyfochrog â'r trefniadau yn achos methiant i gydymffurfio, a amlinellir uchod, y gallai fod per hefyd gan y Comisiynydd i ofyn yn ffurfiol i gyrff, megis y Cynulliad ac awdurdodau lleol, sydd â phwerau gorfodi perthnasol, i'w hymarfer o ran ei argymhellion. Eto, byddai'n rhaid gwneud y rhesymau dros beidio â defnyddio'r pwerau yn hysbys i'r cyhoedd.

27. Argymhellwn hefyd yr archwilir pa mor briodol a phosibl yw rhoi mwy o bwerau gorfodi i'r Comisiynydd, megis y gallu i fynd ag achos o fethu â chydymffurfio i'r Llysoedd. Cydnabyddir y byddai hyn yn golygu trafodaethau â Llywodraeth y DU.

**Rôl, cylch gwaith a swyddogaethau**

28. Credwn y dylai'r Comisiynydd:

- ymarfer ei swyddogaethau gyda'r nod cyffredinol o hyrwyddo a chydymffurfio â Chytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- hybu hawliau plant, gwella amlygrwydd materion sy'n ymwneud â phlant, goruchwylio effaith y polisïau a'r trefniadau ar blant ar draws holl wasanaethau Cymru sy'n effeithio ar blant, er mwyn gwneud argymhellion a datblygu canllawiau a phatrymau arfer da, gan gynnwys ar gyfer gweithio ar draws sectorau. Mae hyn yn golygu y dylai swyddogaethau'r Comisiynydd gynnwys nid yn unig gwasanaethau sy'n gysylltiedig yn arferol â phlant, megis ysgolion a threfniadau gofal, ond y dylent hefyd fedru cwmpasu, er enghraifft, drefniadau trafnidiaeth a mesurau gwrthlygredd i'r graddau y maent yn effeithio ar blant.
- cynrychioli barn plant;
- monitro a goruchwylio trefniadau cwyno ac achwyn ynghyd â threfniadau eiriolaeth i blant; ac ystyried y rhagoriaethau o sicrhau'r fath drefniadau os nad ydynt eisoes yn bodoli;
- bod yn ffynhonnell o gyngor a gwybodaeth i blant ynghylch sut mae defnyddio'r trefniadau cwyno presennol, ac i ymarferwyr o ran arfer da wrth baratoi a gweithredu'r trefniadau
- ymgymryd ag ymchwiliadau ffurfiol os yw mater o egwyddor yn y fantol – er enghraifft, os oes tystiolaeth fod hawliau plant wedi'u torri yn systematig mewn maes arbennig – neu fod amgylchiadau achos yn disgyn y tu allan i'r trefniadau cwyno presennol. Yn hyn o beth, byddai deiliad y swydd yn gweithredu mewn modd tebyg i'r Comisiwn Cyfle Cyfartal neu'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Er y dylai fod gan y Cynulliad yr hawl i ofyn am ymchwiliad gan y Comisiynydd, dylai fod hawl gan y Comisiynydd i wrthod, er mwyn diogelu annibyniaeth y swydd;

- bod â pher i gynorthwyo, gan gynnwys yn ariannol, â'r camau cyfreithio lle mae hawliau plentyn unigol wedi'u torri os oes mater o egwyddor yn y fantol. Rhagwelir y dylai'r Comisiynydd ddefnyddio'r fath ber yn gynnil a dylai ystyried canllawiau'r Cynulliad ar y materion; a dylai'r fath gymorth fod yn destun Cymorth Cyfreithiol lle y mae ar gael;
- sylwi, os dewisa hynny, ar unrhyw ymchwiliadau sy'n ymwneud â cham-drin plant yng Nghymru, er y byddai angen ymarfer y fath ber yn gyfrinachol. Cydnabyddir y bydd angen ymgynghori ag asiantaethau eraill ar hyn;
- bod â'r per i ofyn fod gwybodaeth yn cael ei darparu a dogfennau'n cael eu datgelu o ran y swyddogaethau hyn a chychwyn gweithredu gorfodol i gael y wybodaeth, lle bo rhaid;
- Gwneud adroddiadau, gan gynnwys adroddiad blynyddol i'r Cynulliad.

29. Rydym wedi ystyried a ddylai cylch gwaith y Comisiynydd gynnwys polisi a gwasanaethau sy'n effeithio ar blant Cymru, ond lle nad yw'r cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad, megis y system fudd-daliadau. Credwn y byddai'r fath awdurdodaeth yn ddymunol i hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru. Dylid archwilio'r swyddogaethau ehangaf posibl o ran polisïau a gwasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli. Dylai'r Comisiynydd, fan lleiaf, fedru ystyried a gwneud sylwadau ar unrhyw faterion nad ydynt wedi'u datganoli sy'n effeithio ar blant yng Nghymru mewn modd tebyg i hawl y Cynulliad o dan adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru a gall ymarfer hyn o ran swyddogaethau nad ydynt wedi'u datganoli. Fodd bynnag, cydnabyddir fod y fath gynnig yn destun trafodaethau â Llywodraeth y DU.

30. Rydym hefyd wedi ystyried a ddylai'r Comisiynydd fod ag awdurdodaeth dros wasanaethau a ddarperir yn Lloegr i blant sy'n byw fel arfer yng Nghymru – 'darpariaeth draws-ffiniol'. Eto, credir y byddai'r fath awdurdodaeth yn ddymunol i hyrwyddo hawliau a lles plant sy'n byw fel arfer yng Nghymru, yn arbennig felly o ran gwneud sylwadau ar paham nad yw'r gwasanaethau ar gael yma. Felly, argymhellir hefyd y dylid archwilio'r swyddogaethau mwyaf eang posibl o ran darpariaeth draws-ffiniol, gyda pher o leiaf sy'n debyg i un y Cynulliad o dan adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ond cydnabyddir, fel yn achos materion nad ydynt wedi'u datganoli, y byddai'r mater hwn yn destun trafodaethau â Llywodraeth y DU.

31. Rydym wedi ystyried a ddylid estyn swyddogaethau'r Comisiynydd i bersonau sydd y tu hwnt i 18 oed mewn amgylchiadau arbennig. Nodir mai'r diffiniad o blentyn yn Neddf Plant 1989 yw person o dan 18 oed a'r unig eithriad yw person dros 18 oed sydd wedi gwneud cais i'r llysoedd am gynhaliaeth rhieni, fel arfer o ganlyniad i barhau yn y system addysg. Sefydlir y Comisiynydd yn y lle cyntaf o dan y Mesur Safonau Gofal sy'n diffinio plentyn fel person o dan 18 oed yn ddi-eithriad.

32. Mae rhesymeg ynghlwm wrth gyfyngu rôl y Comisiynydd i'r sawl sydd o dan 18 oed bron ym mhob achos, o ystyried mai un o'r prif resymau dros sefydlu Comisiynydd yw adlewyrchu'r ffaith nad oes gan blant yr hawl i bleidleisio ac, felly, maent yn cael trafferth i ddylanwadu ar y broses ddemocrataidd. Fodd bynnag, nodir fod y Mesur Plant (sy'n Gadael Gofal) yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o sicrhau fod pobl ifanc, sy'n gadael gofal, yn parhau i dderbyn cymorth a chefnogaeth pan ddônt yn oedolion ifanc.

33. Prif ddiben y Mesur yw creu dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol gefnogi pobl ifanc sydd wedi

bod yn derbyn gofal i'w helpu i symud o dderbyn gofal i fyw yn annibynnol mewn modd mor sefydlog ag sy'n bosibl. Mae'r mesurau'n cynnwys cymorth i'r sawl sy'n gadael gofal hyd at 21 oed (neu hyd at 24 oed, os byddant yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant); a bydd y Mesur hefyd yn sefydlu fframwaith cynrychiolaeth a chwynion ar lefel yr awdurdod lleol i bobl ifanc sy'n gymwys i dderbyn y fath gymorth.

34. Felly, mae'r Pwyllgor yn ystyried y dylai dyletswyddau'r Comisiynydd ymestyn i gynnwys pobl ifanc hyd at 24 oed sy'n gymwys i dderbyn cyngor a chymorth gan awdurdodau lleol o ganlyniad i'r Mesur Plant (sy'n Gadael Gofal).

**Penodiad Statudol neu Anstatudol**

35. Er mwyn cael y statws a'r annibyniaeth angenrheidiol, mae'r Pwyllgor yn argymell sefydlu'r Comisiynydd fel swydd annibynnol drwy statud. Croesewir y cynnig, fel cam cyntaf, i ddiwygio'r Mesur Safonau Gofal i ddarparu cwmpas statudol cychwynnol i'r Comisiynydd. Bydd swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Mesur yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Syr Ronald Waterhouse A*r Goll mewn Gofal* ar Gomisiynydd – gweler paragraff 14 uchod.

36. Bydd swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Mesur Safonau Gofal yn cynnwys cartrefi plant, canolfannau teuluol preswyl, asiantaethau maethu, asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, gwasanaethau mabwysiadu a maethu'r awdurdod lleol, gofal yn y cartref, gwasanaethau gofal dydd a gwarchod plant i blant o dan 8 oed, ysbytai a chlinigau preifat a gwirfoddol, ac ysgolion preswyl. Ond mae'r ystod eang o swyddogaethau yn hepgor rhai eraill sy'n ganolog i fywyd pob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys yn arbennig y sawl sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau plant yr awdurdod lleol ar gyfer plant mewn angen. Felly, credwn bod rhaid ceisio estyn cwmpas y Comisiynydd ar y cyfle cyntaf i gynnwys pob gwasanaeth sy'n effeithio ar blant.

37. Credwn y dylai'r Cynulliad geisio cyfle deddfwriaethol cynnar i estyn rôl, swyddogaethau a phwerau'r Comisiynydd yn unol â'n casgliadau a'n hargymhellion. Yn y cyfamser, dylai'r Cynulliad archwilio a yw'n bosibl iddo ddefnyddio'i bwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i ystyried gofyn i'r Comisiynydd ymgymryd â gorchwylion sy'n ymwneud ag unrhyw swyddogaeth sy'n berthnasol i blant. Mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Addysg cyn 16 oed a Phlant, bydd y Pwyllgor yn archwilio manylion sy'n ymwneud â'r gorchwylion posibl hyn.

38. Ein barn yw mai statws briodol y Comisiynydd yw unigolyn corfforaethol, sy'n golygu y byddai gan y swydd hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i'r unigolyn dan sylw a byddai'r hawliau a'r atebolrwydd yn aros gyda'r swydd heblaw am newidiadau o bryd i'w gilydd o ran yr unigolyn sy'n dal y swydd ac na ddylai fod mwy nag un Comisiynydd. Er mwyn pwysleisio annibyniaeth y Comisiynydd, ni ddylid ei ystyried yn was nac yn asiant i'r Goron. Ni fwriedir fod gwasanaeth fel Comisiynydd yn wasanaeth yn y Gwasanaeth Sifil Cartref.

39. Dylai fod per gan y Comisiynydd, ar ôl ymgynghori â'r Cynulliad, i benodi'r fath staff ag y mae'n ei

ystyried yn angenrheidiol i'w gynorthwyo yn y modd y mae'n ymarfer ei swyddogaethau.

**Costau a sut y gellid eu bodloni**

40. Dylid ariannu swydd a chostau'r Comisiynydd gan y Cynulliad. Rhagwelir y bydd y trefniadau cyllido'n debyg i rai Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru – bydd y Comisiynydd yn paratoi a chyflwyno amcangyfrif o'r incwm, costau a threuliau eraill y swydd i'r Cynulliad ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Byddai hyn yn cymryd i ystyriaeth y costau a ragwelir o ran unrhyw ymchwiliadau neu gymorth ariannol gydag achos.

41. Mae costau swyddfeydd Comisiynwyr mewn gwledydd eraill yn amrywio o £200,000 i £600,000 y flwyddyn yn ôl y swyddogaethau yr ymgymerir â hwy. Argymhellir swyddogaethau eang i Gomisiynydd Cymru ac, felly, ystyrir y bydd cost flynyddol y swydd tua phen uchaf yr ystod hon. Fel rhan o'r broses ymgynghori ar y Comisiynydd, amcangyfrifodd Plant yng Nghymru gost flynyddol o tua £739,000 ar gyfer swydd lle yr oedd gan y Comisiynydd swyddogaethau mor eang. Seiliwyd hyn ar staff ategol a oedd yn cynnwys comisiynwyr cynorthwyol a chymorth cyfreithiol, gweinyddol a chyhoeddusrwydd ac roedd yr amcangyfrif yn cynnwys adeiladau a chostau eraill o ran y swyddfa.

42. Ystyrir fod hyn yn amcangyfrif rhesymol i seilio'r costau craidd arno. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith manwl ar ariannu, yn arbennig felly o ran arian ychwanegol ar gyfer ymchwiliadau a chymorth gyda threfniadau cyfreithiol.

**Pa flaenoriaeth ddylai'r Cynulliad ei rhoi i sefydlu'r fath swydd?**

43. Ers rhoi ein cylch gwaith i ni, mae'r cwestiwn wedi'i ateb; mae gweithredu eisoes ar y gweill i roi swyddogaethau statudol cychwynnol i'r Comisiynydd.

44. Rydym yn annog bod y Comisiynydd yn cael ei benodi cyn gynted ag sy'n bosibl yn dilyn mabwysiadu'r Mesur Safonau Gofal. Y bwriad gwreiddiol oedd penodi Comisiynydd erbyn diwedd y flwyddyn. Yn awr, deëllir y gallai Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur gymryd tan yr hydref a fyddai'n oedi'r penodiad. Fodd bynnag, ni ddisgwylir oedi o fwy na 2 i 3 mis.

**I bwy y buasai'r Comisiynydd yn atebol?**

45. Dylid penodi'r Comisiynydd gan y Cynulliad yn ei gyfanrwydd a dylai fod yn atebol iddo. Fodd bynnag, bydd angen i'r trefniadau gynnwys mesurau diogelwch i sicrhau annibyniaeth y Comisiynydd. Felly, awgrymir bod y Comisiynydd yn cael ei benodi am gyfnod o 7 mlynedd a bod ei benodiad yn anadnewyddadwy, er y dylai'r Cynulliad fedru terfynu'r penodiad cyn iddo ddirwyn i ben oherwydd analluedd neu gamymddwyn.

46. Ystyriwn y dylai'r trefniadau penodi gynnwys bod y Cynulliad yn defnyddio'i bwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i sefydlu pwyllgor ad-hoc i gynghori ar y penodiad. Gellid ffurfio panel dethol a

chyfweld o’r pwyllgor ad hoc; a gallai neilltuo cyngor arbenigol allanol fel yr ystyrir hynny’n angenrheidiol. Dylai’r penderfyniad terfynol fod yn destun pleidlais o fwyafrif y Cynulliad yn ei gyfanrwydd. Gellid mabwysiadu trefniadau tebyg, petai’n rhaid ystyried terfynu’r penodiad yn gynnar oherwydd anallu neu gamymddwyn.

47. Mae’r Pwyllgor yn ystyried y dylid talu sylw i farn plant a phobl ifanc yn y broses benodi. Gallai cylch gwaith pwyllgor ad hoc gynnwys talu sylw i farn plant a phobl ifanc yn y broses benodi. Gellid cyflawni hyn ar ffurf cyfweliadau ar wahân gan blant a phobl ifanc gydag adroddiadau’n mynd yn ôl i’r pwyllgor penodi, neu gallai plant a phobl ifanc gymryd rhan yng nghyfweliad y pwyllgor.

48. Heblaw am y broses o benodi a therfynu’r penodiad, bydd prif atebolrwydd y Comisiynydd i’r Cynulliad yn ymwneud â chyhoeddi adroddiadau. Bydd penderfyniadau ynghylch pa faterion i’w hymchwilio yn cael eu gwneud yn gyffredinol gan y Comisiynydd. Fodd bynnag, credwn y gallai’r Cynulliad ofyn i’r Comisiynydd adrodd ar faterion penodol, ond penderfyniad y Comisiynydd fydd gwneud hynny neu beidio – ar yr amod ei fod yn cyhoeddi ei resymau dros wrthod.

49. Bydd angen i’r Comisiynydd fod mewn cysylltiad ag ystod eang o sefydliadau er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Fodd bynnag, y berthynas bwysicaf fydd honno â’r plant a’r bobl ifanc eu hunain. Hwy, ac nid darparwyr y gwasanaethau, ddylai osod yr agenda ar gyfer gwaith y Comisiynydd. Mae angen gwneud trefniadau penodol i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan. Disgwylir y byddai’r Comisiynydd am amlinellu mecanweithiau penodol i gyflawni hyn fel blaenoriaeth. Rhaid i’r trefniadau annog fod *pob* plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cymryd rhan, ac yn arbennig felly, plant a phobl ifanc lle y mae’r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt, rhai sydd o leiafrif ethnig, o gefndir cymdeithasol neu economaidd difreintiedig a phlant anabl.

50. Deallwn y bydd Plant yng Nghymru yn cynnal cynhadledd i blant a phobl ifanc ym mis Medi ac awgrymir y gallai’r digwyddiad hwn fod yn gyfle da i ddarganfod gan blant a phobl ifanc sut fath o ran yr hoffent ei chwarae yn y broses benodi ac wrth osod agenda’r Comisiynydd.

**CASGLIADAU**

51. Rydym wedi rhoi’r flaenoriaeth uchaf i archwilio rôl, cylch gwaith a swyddogaethau’r Comisiynydd Plant. Mae’n dda gennym fod wedi chwarae rhan mor llawn yn y broses bwysig hon ac rydym yn edrych ymlaen i barhau i wneud hynny.

52. Ystyriwn fod sefydlu Comisiynydd Plant yng Nghymru yn ddatblygiad arwyddocaol iawn ac arloesol wrth alluogi plant a phobl ifanc i ddylanwadu’n uniongyrchol ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywydau. Rydym yn fodlon a balch fod Cymru wedi arwain y ffordd yn y maes hwn a gobeithio y bydd gweddill y DU yn dilyn.

**Cydnabyddiaethau**

53. Hoffem ddiolch o galon i'r sefydliadau a'r unigolion a ymatebodd yn ysgrifenedig i'n hymarferiad ymgynghori a'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar. Bu eich cyfraniadau'n amhrisiadwy wrth ein cynorthwyo i ymgymryd â'r gorchwyl hwn.

**Atodiad A**

**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Health & Social Services Committee**

Bae Caerdydd/Cardiff Bay

Caerdydd/Cardiff CF99 1NA

Ein cyf/Our Ref: HSS-Ch Com.let 1

07 October 1999

Y sawl sydd â diddordeb

**COMISIYNYDD ARFAETHEDIG PLANT CYMRU**

Mae Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried dyletswydd, rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru. Bwriad y Pwyllgor yw cyflwyno argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl ystyried sylwadau'r rhai sydd â diddordeb.

Gwahoddir i chi gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor yngln â Chomisiynydd arfaethedig Plant Cymru, mewn ysgrifen, (drwy'r e-bost o ddewis), neu ar dâp, erbyn 12 Tachwedd 1999. Yn benodol, gwahoddir sylwadau am y canlynol:

1. maint y diffygion yn y trefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau plant (y gallai'r Comisiynydd

ymdrin â hwy);
2. i ba raddau byddai swydd o’r fath yn gorgyffwrdd â threfniadau presennol neu arfaethedig eraill i ymdrin â chwynion plant neu i hyrwyddo buddiannau plant;
3. beth fyddai dyletswyddau, rôl a swyddogaethau Comisiynydd;
4. a ellid penodi Comisiynydd ar sail anstatudol;
5. a fyddai angen awdurdod statudol, ac ar ba ffurf;
6. amcangyfrif o’r costau a sut y gellid eu talu;
7. pa flaenoriaeth y gallai’r Cynulliad ei rhoi i sefydlu swydd o’r fath; ac
8. pwy fyddai’r Comisiynydd yn atebol iddo.

Dylid anfon ymatebion at Miss Laura Williams, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA. E-bost: health-socserv.comm@wales.gsi.gov.uk

**Er mwyn ein helpu i ddadansoddi’r ymatebion i gyd yn llawn o fewn yr amser sydd ar gael, cadwch eich ymatebion mor fyr â phosibl a dangos yn eglur y cwestiwn yr ydych yn ei ateb.**

Byddai o gymorth pe baech yn egluro a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran corff; a ydych yn fodlon i’ch tystiolaeth gael ei chyhoeddi; ac a fyddech yn fodlon rhoi tystiolaeth ar lafar i’r Pwyllgor.

Yr Eiddoch yn ffyddlon

**Jane Westlake**

**Clerc y Pwyllgor**

**Atodiad B**

## <u>Ymatebion i'r Ymgynghori ar y Comisiynydd Plant yng Nghymru</u>

### <u>Y Sector Iechyd</u>

All Wales Children’s Senior Nurse Forum

Association for the Welfare of Children in Hospital

British Medical Association

Bro Taf Speech and Language Therapy Dept

Chartered Society of Physiotherapy

Community Practitioners & Health Visitors Association

Dept Child Health, University of Wales College of Medicine

Directors of Public Health

Awdurdod Iechyd Dyfed Powys

Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent Healthcare

Iechyd Morgannwg

Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

Coleg Nyrsio Brenhinol

Royal College of Paediatrics & Child Health

School Nurses of Ceredigion & Mid Wales NHS Trust

Ty Hafan - The Children’s Hospice in Wales

**<u>Sector yr Awdurdod Iechyd</u>**

Association of Social Services Directors

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent - Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Blaenau Gwent Early Years Development

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Caerphilly - Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Dinas a Sir Abertawe - Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-nedd Port Talbot - Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Casnewydd Bwrdeistref Sirol

Partneriaeth Plant Ceredigion

Cyngor Sir Powys

Powys County Council, Leisure and Recreation Youth Services

Powys Blynyddoed Cynnar a Phartneriaeth Gofal Plant

Rhondda Cynon Taff Early Years Partnership

Welsh Local Government Association

Partneriaeth Gofal Plant Wrecsam

Wrexham County Borough Council

Wrexham Early Years Forum

**Y Sector Gwirfoddol**

Access for Black Children with Disabilities or Chronic Illness. (ABCD)

Barnardos (Cymru

Bobath Children’s Therapy Centre Wales

Care for Wales

Childline Cymru / Wales

Children in Wales

MENCAP

Mudiad Ysgolion Meithrin

National Foster Care Association

National Playing Fields Association

National Youth Advocacy Services

NCH Action for Children Cymru (North Wales)

NCH Action for Children Cymru (South Wales)

NSPCC - Cymru

Save the Children Fund

SNAP Cymru

Prosiect Ieuenctid Sengl Digartref Abertawe

TACT - The Adolescent & Children’s Trust

The Buttle Trust

The Children’s Society

Voices from Care

Wales Assembly for Women - Gwent branch

Cymorth i Fenywod

Y Bont

Young Minds

**Sector Arall**

Association of Lawyers for Children

Central Council for Education and Training for Social Workers/Training Organisation for the Personal Social Services Cymru

Swyddfa'r Prif Gwnstabl - Gogledd Cymru

Children and Young People’s Assembly Initiative

Churches National Assembly Centre

Clover Care Consultancy

Commissioner (Welsh Administration)

Comisiwn Cyfle Cyfartal

Heddlu Gwent

Gwasanaeth Prawf Gwent

Justice for Children

Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru

National Commission of Inquiry into the Prevention of Child Abuse

National Union of Teachers Cymru

Sir Thomas Picton School

South East Wales GALRO Panel

Cyngor Chwaraeon Cymru

Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

Bwrdd yr Iaith Cymraeg

**<u>Unigol</u>**

Professor Ian Butler

Ms Jane Churchman

Dr D Evans (Pediatregydd Ymgynghorol)

Dr Claire Jenkins

Ms Kate Verrier Jones

Dr J Morgan

Ms Sonia Pelusi

Dr T Rangarajan (Pediatregydd Cymunedol)

Mrs Sally Rees

Dr Quentin Sandifer

Mr Graham Smith (Pediatregydd Ymgynghorol)

Mrs Pat Smith

Ms Susan Stevens

Dr Molly Thomas

Peter Watkins (Seicolegydd Clinigol)

**Atodiad C**

**Darnau o Gofnodion y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau**

**Cymdeithasol sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Plant**

**HSS-02-99 : 7 Gorffennaf 1999**

Cyflwyniad

7.1 Gofynnwyd i’r Pwyllgor sefydlu rhaglen waith i ystyried rôl a swyddogaethau’r Comisiynydd Gwasanaethau Plant. Gofynnwyd hefyd i’r Aelodau ystyried sefydliadau y gellid eu gwahodd i roi tystiolaeth, i ategu ac i gynorthwyo’r broses hon.

Pwyntiau Allweddol

7.2 Cafwyd cefnogaeth yr holl bartïon i’r cynigion hyn. Cytunodd y Pwyllgor fod angen clywed barn amrywiaeth o sefydliadau ac hefyd plant a phobl ifanc, cyn iddynt allu gwneud argymhellion ar gyfer cylch gorchwyl y Comisiynydd Plant. Cytunwyd y dylai’r Comisiynydd gael y grym i weithredu pan fo angen.

Y Canlyniadau a’r Camau a Gymerir

7.3 Gofynnwyd am fanylion ychwanegol y swyddi eraill hyn. Caiff copïau o adroddiad Utting "People Like Us" eu dosbarthu i aelodau o’r Pwyllgor hefyd. Gofynnwyd hefyd am wybodaeth ynglŷn â’r problemau y mae holl blant yng Nghymru yn eu hwynebu (nid y grwpiau amlwg yn unig fel plant mewn gofal).

7.4 Gwahoddir plant o Gymru i siarad gerbron y Pwyllgor ar 21ain Gorffennaf, yn unol â’r canllawiau a awgrymwyd yn Atodiad A o’r papur. Ar ben hyn gofynnir iddynt ddweud pam fod angen Comisiynydd, a sut y dylai ef / hi gydberthyn i hapddalwyr eraill. Ceisir cael eu barn hefyd ar sut i ymestyn y broses ymgynghorol i gynnwys ysgolion, grwpiau ieuenctid a sefydliadau perthnasol eraill.

7.5 Bydd Ysgrifennydd y Cynulliad yn darparu mwy o wybodaeth fanwl i’r Pwyllgor am gomisiynwyr plant mewn gwledydd eraill (a amlinellir yn Atodiad B o’r papur), a’r problemau a wynebir gan blant yn gyffredinol, nid y rhai mewn gofal yn unig. Buasent hefyd yn hoffi gweld Adroddiad Utting "People Like Us".

**HSS-04-99 : 21 Gorffennaf 1999**

Cyflwyniad

1. Gwahoddwyd y Pwyllgor i drafod yr adroddiad parthed yr arolwg o sefyllfa’r NHS, a gyhoeddwyd ar ddydd Llun 19fed Gorffennaf. Yn benodol, gofynnwyd i’r pwyllgor ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer NHS Cymru yng ngoleuni canfyddiadau’r Arolwg.

Pwyntiau Allweddol:

2 Mae gan yr Arolwg o Sefyllfa'r NHS bedair neges glir:

- mae'n hanfodol bod sefydliadau'r NHS yn byw o fewn eu hadnoddau;
- mae angen gwell gweithredu ar wasanaeth iechyd effeithiol rhwng y rheini sy'n ymwneud â'i ddarparu;
- mae angen arweiniad cryfach ar faterion Cymru gyfan drwy fonitro gwell a chefnogaeth a phartneriaeth rhwng y Cynulliad a'r sefydliadau; ac
- mae angen i bobl broffesiynol a gweinyddwyr, y cyhoedd a hapddalwyr fod yn fwy agored.

Dylai'r adroddiad helpu'r Pwyllgor i gael dealltwriaeth gytûn o'r broblem a rhoi sail iddo ystyried yr atebion.

3. Croesawodd y Pwyllgor yr Arolwg o Sefyllfa yr NHS, ond disgwylasai rhai aelodau fwy o wybodaeth ffeithiol a dadansoddiadau o ffigyrau ar lefel yr awdurdod iechyd.

4. Mae'r gwariant uwch ar iechyd yng Nghymru yn un o ganlyniadau lefelau iechyd gwaeth. Felly, gallai'r diffyg cyfredol fod un o ganlyniadau tanariannu yn ogystal â chamreoli ariannol. Mae costau rheoli ymddiriedolaeth cyfartalog yn is na'r costau yn Lloegr. Mae angen trafodaeth lawn ar yr hyn y gall y gwasanaeth iechyd ei gyflwyno mewn gwirionedd, gan ystyried galw, dogni a chostau.

5. O dan y farchnad fewnol ni chafodd gwariant ei fonitro na'i reoli'n effeithiol. Ni wnaethpwyd unrhyw ymgais ar ran yr Arolwg i bennu cost y methiant hwnnw, na'r arbedion y gellid eu cyflawni yn sgîl ei dranc. Dylai'r symudiad oddi wrth gystadleuaeth fewnol achosi symudiad tuag at natur agored a thryloywder, gan sicrhau bod gwybodaeth gan ymddiriedolaethau ar gael yn rhwyddach.

6. Mae Cymru wedi arwain y ffordd o ran lleihau lefel y gorbenion ac mae wedi ceisio gostwng costau rheoli £12 i £13 miliwn ers ad-drefnu'r AI ym 1996.

7. Mynegwyd pryder y bydd y cydgyfeirio yn Fformwla Barnett yn golygu gostyngiad cymharol mewn arian ac o ganlyniad i hynny yng ngwasanaethau Cymru lle mae mwy o angen.

8. Ni ddylai Ymddiriedolaethau nad ydynt wedi mynd i ddyled orfod sybsideiddio'r rheini sydd mewn dyled. Dylai taliadau ariannol uwch eleni a chynlluniau adfer cytûn atal hyn. Fodd bynnag, mae'r taliad hwn wedi lleihau y gronfa ganolog gryn dipyn. Mae'n rhaid ystyried y fformwla ddyrannu cyn 2001, gan ystyried amnewidiadau megis gwledigrwydd a phrinder yn fanylach.

**HSS-06-99 : 16 Medi 1999**

<u>Cyflwyniad</u>

1. Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried argymhellion i fwrw ymlaen â'r gwaith o ymchwilio i'r angen am

gomisiynydd plant annibynnol a'i rôl a sut yr hoffai dderbyn tystiolaeth parthed hyn.

Pwyntiau Allweddol

2. Dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y comisiynydd plant, yn hytrach nag unrhyw beth sy'n effeithio ar blant megis trwyddedu pobl sy'n gweithio gyda phlant er enghraifft.

3. Dylai'r rhestr bostio o sefydliadau a wahoddir i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig hefyd gynnwys:

- UNSAIN ac Undebau Gweithwyr Gofal Plant
- Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
- Clymblaid Menywod Cymru
- Lleisiau mewn Gofal

4. Dylai'r adroddiad dilynol grynhoi'r ymatebion o dan brif benawdau, gyda dadansoddiad ac esboniad o sut y rhoddwyd pwys iddynt yn ôl sefydliad.

5. Mae'n bwysig bod y Pwyllgor hefyd yn siarad â'r cyhoedd ac mae rôl i aelodau fynd allan a chwrdd â phobl yn eu hetholaethau. Bydd y Cadeirydd yn ystyried sut y gellir bwrw ymlaen â hyn, o bosibl ar brynhawniau Iau pan nad oes unrhyw fusnes gan y Cynulliad a allai wrthdaro.

6. Mae'n bwysicach sicrhau bod y broses ar gyfer casglu tystiolaeth a datblygu rôl y Comisiynydd yn cael ei wneud yn iawn, yn hytrach na chwrdd â'r dyddiad cau gwreiddiol, sef diwedd mis Tachwedd ar gyfer yr adroddiad cyntaf.

7. Yn ogystal â Phlant yng Nghymru, dylid gofyn i sefydliadau eraill hefyd enwebu siaradwyr sy'n cynrychioli grwpiau plant a phobl ifanc.

8. Byddai'n fwy ystyrlon ystyried y goblygiadau ariannol pan fo'r Pwyllgor wedi penderfynu beth fydd rôl a chylch gorchwyl y Comisiynydd, ac y gellir gwneud cyfrifiadau mwyn hyddysg o'r gost.

9. Bydd Jane Hutt yn cyfarfod ag Ombwdsmon Norwy mewn cynhadledd Plant yng Nghymru yn fuan.

**HSS-13-99 : 8 Rhagfyr 1999**

Cyflwyniad

5.1 Croesawodd Kirsty Williams gynrychiolwyr Plant yng Nghymru a Lorraine Barrett a oedd yn cynrychioli'r Pwyllgor Addysg o dan 16.

Cyflwyniad

5.2 Cafwyd cyflwyniad byr i'r Pwyllgor gan Richard Powell. Cydnabuodd hwyrach na fyddai'n bosibl i'r Comisiynydd Plant feddu ar bwerau statudol o'r cychwyn cyntaf. Fodd bynnag, dyma ddylai fod y nod yn y pen draw.

5.3 Argymhelloedd mai Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) oedd yr ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu rôl a swyddogaeth y Comisiynydd Plant. Dylai gwaith y Comisiynydd Plant:

- hyrwyddo a gwerthuso'r confensiwn;
- datblygu gwasanaethau a pholisi yn seiliedig ar y confensiwn;
- asesu effaith holl bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol ar blant; a
- cyflwyno adroddiad yn flynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol

Prif Bwyntiau'r Drafodaeth

5.4 Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor, gwnaeth cynrychiolwyr Plant yng Nghymru y pwyntiau canlynol:

i. Roedd Plant yng Nghymru wedi ymgynghori â phlant ar ystod o faterion yn ymwneud â'r Cynulliad, gan gynnwys y Comisiynydd Plant.
ii. Roedd asesiadau effeithiau polisi ar blant yn arfer pwysig. Mae llawer o wledydd eraill yn cynnwys Comisiynwyr Plant o'r cychwyn ar ddatblygiad polisi er mwyn sicrhau bod materion plant yn ystyriaeth gynnar.
iii. Dim ond ar ôl gosod rôl a swyddogaeth y comisiynydd y gellir pennu adnoddau a chyllidebau.
iv. Roedd yn bwysig cynnal momentwm a sefydlu swyddfa i'r comisiynydd, hyd yn oed os na chaniatawyd grymoedd i ddechrau. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn enghraifft o gorff statudol a ddechreuodd ar sail anstatudol.
v. Roedd yn bwysig i'r Comisiynydd fod yn annibynnol. Os mai dim ond drwy'r Cynulliad y gellid arfer pwerau statudol, ni fyddai'r swydd yn annibynnol. Yn ddelfrydol dylai deddfwriaeth sylfaenol fod mewn mesur ar wahân, nid yn gysylltiedig â mesur a ymdriniai â materion ehangach lle na ellid nodi'r darpariaethau yn hawdd
vi. Dylai'r Comisiynydd weithio mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol a chyrff cyhoeddus.

5.5 Siaradodd Elspeth Webb â'r Pwyllgor am iechyd plant, a nododd mai canlyniad eu hamgylchedd ydoedd yn aml, yn hytrach nag yn fater o ddarpariaeth y gwasanaeth iechyd. Ymhlith yr enghreifftiau a roddodd roedd:

i. Mae deddfau Iechyd a Diogelwch yn diogelu pobl mewn cyflogaeth, ond nid oes unrhyw reoliadau sy'n sicrhau y darperir celfi priodol ar gyfer plant yn yr ysgol ac nad yw plant yn cario llwythi trwm o lyfrau.
ii. Caiff Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glaslanciau un rhan o ugain o'r gyllideb iechyd y meddwl er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer un rhan o bump o'r boblogaeth.

iii. Ymdrinnir ag oedolion Sgitsoffrenig sydd wedi lladd pobl mewn modd cynyddol goleuedig a chydymdeimladol. Ond mae rhai plant sydd wedi lladd wedi’u portreadu fel bodau dieflig, ac nid aethpwyd i’r afael â’u lles emosiynol a meddyliol.

5.6 Pwysleisiodd Jane Hutt bwysigrwydd mynd i’r afael â phenderfynyddion afiechyd a’r anghydraddoldeb iechyd wrth wella bywydau plant ac amodau socio-economaidd. Atgoffodd y pwyllgor bod cyflwyno Comisiynydd Plant bellach yn ymrwymiad gan bob plaid a bod £100,000 wedi’i ddyrannu o fewn y gyllideb i sefydlu’r swydd.

5.7 Derbyniwyd 91 o ymatebion i’r ymgynghoriad ar y Comisiynydd Plant. Roedd llawer o’r ymatebion yn unol ag argymhellion gan Blant yng Nghymru. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfranogiad a chefnogaeth llywodraeth leol wrth ddatblygu’r fenter hon.

Gweithredu

5.8 Bydd copïau o lythyrau ymgynghori ar gael i aelodau’r pwyllgor yn llyfrgell yr aelodau cyn y Nadolig.

5.9 Byddai’r Clerc yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn eu gwahodd unwaith eto i gyflwyno eu safbwyntiau ar y Comisiynydd Plant.

5.10 Copïau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn i’w dosbarthu i aelodau’r pwyllgor.

**HSS-03-00 : 2 Chwefror 2000**

Rhagarweiniad

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad ar gyfer Addysg Cyn 16 Oed a’r Blynyddoedd Cynnar, a Lorraine Barrett, AC i’r cyfarfod.

2.2 Gofynnwyd i’r pwyllgor gryfhau’r trefniadau ar gyfer gweddill y broses ymgynghorol ar yr argymhellion ar gyfer Comisiynydd Plant Annibynnol i Gymru, a chywreinio’r ffordd o holi sefydliadau a fyddai’n cael eu gwahodd i wneud cyflwyniadau llafar.

2.3 Lefel o gonsensws o’r ymatebion i’r ymgynghoriad sydd eisoes wedi digwydd.

Prif Bwyntiau’r Drafodaeth

2.4 Gwnaeth yr aelodau’r pwyntiau canlynol:

i. Roedd cytundeb eang bod angen i’r Comisiynydd Plant gael pwerau statudol i wneud y swydd yn werth chweil ac yn gredadwy. Fodd bynnag, roedd angen gwaith pellach i adnabod pa bwerau statudol a ddylai fodoli a’r ffordd i barhau nes bod y statws statudol wedi ei gadarnhau.
ii. Mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i’r teitl i gynnwys pobl yn eu harddegau hwyr.
iii. Mae angen datblygu rôl ymchwiliadol posibl y Comisiynydd ymhellach. Byddai angen cyfrifo oblygiadau risg uchel ymgymryd â rôl ymchwiliadol. Mae’n bwysig na fydd y Comisiynydd yn disodli lle gweithdrefnau cwyno sydd wedi eu sefydlu.
iv. Dylai fod gan y Comisiynydd broffil uchel. Dylai plant fod yn gallu deall ei rôl a’i weithredoedd i gael mynediad i wasanaethau. Ni ddylai disodli na thanseilio gwasanaethau megis "Childline".
v. Gwnaed argymhelliad i Barnardos gael eu hychwanegu at y rhestr, yn enwedig yng ngoleuni eu gwaith gyda lleiafrifoedd du ac ethnig.
vi. Argymhellwyd ymgynghoriad pellach ar ôl i rôl a chylch gorchwyl y Comisiynydd Plant gael ei gywreinio.

2.5. Cadarnhaodd Jane Hutt gydnabyddiaeth y Llywodraeth o’r angen i’r Comisiynydd Plant yng Nghymru feddu ar bwerau statudol. Am fod arian i sefydlu hyn wedi cael ei glustnodi o Ebrill 2000, roedd yn bwysig gwneud cynnydd.

2.6 Er y gallai’r Comisiynydd fod â rôl ymgynghorol gref mewn datblygu ac archwilio polisi, byddai’r gweithgor rheoli bob amser yn cynnal rôl y gwneuthurwr polisi. Mae’n rhaid egluro amodau sylfaenol sail statudol y Comisiynydd Plant, cyn y gellir parhau â’r broses ddeddfwriaethol.

<u>Casgliadau</u>

2.7 Dywedodd y Cadeirydd wrth grynhoi casgliadau’r pwyllgor:

- y dylid gofyn barn y bobl a wahoddwyd i wneud cyflwyniadau llafar yn ôl y cydbwysedd rhwng y gweithgor, swyddogaeth datblygu polisi a swyddogaeth ymchwiliadol;
- cafwyd cytundeb bod sail statudol yn hanfodol, ond y byddai angen ystyried yn fanylach;
- mae angen gwybodaeth ar y cyfleoedd ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol;
- mae angen mwy o fanylion am yr oblygiadau adnoddau o fodelau posibl.

2.8 Mae angen i’r pwyllgor wario mwy o amser yn gwrando ar gyflwyniadau llafar, gan gynnwys trafodaeth gyda Chomisiynydd Sweden, cynghorodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai blaenoriaethu’r Comisiynydd Plant fel eitem o waith y pwyllgor, yn cael effaith ar y Flaenraglen.

<u>Gweithredu</u>

2.9 Awgrymwyd cyfarfodydd ar y cyd gyda’r Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed a’r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer y sesiynau llafar. Byddai’r Clerc yn ymgynghori â Chlerc y pwyllgor hwnnw am y cyfle i gynnal cyfarfodydd ar y cyd i wrando ar gyflwyniadau llafar a byddai’n adrodd yn ôl i’r cyfarfod o lefarwyr y pleidiau. Byddai’r posibilrwydd o sesiwn tystiolaeth diwrnod llawn yn cael ei ystyried.

2.10 Roedd yr aelodau'n awyddus i dderbyn tystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Sweden, ond roeddent yn bryderus am oblygiadau ariannol gofyn iddo ef/hi i fynychu'r cyfarfod mewn person. Byddai'r Clerc yn edrych i mewn i opsiynau amgen fel cyswllt cynhadledd fideo.

2.11 Byddai Adran Plant a Theuluoedd yn darparu papur yn nodi'r themâu ymgynghori fyddai'n dod i'r amlwg a thrafodaeth y pwyllgor. Byddai hyn yn ffurfio sail ar gyfer y cam nesaf ac yn helpu datblygu'r ffordd o holi ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar.

2.12 Byddai'r papur o'r Adran Plant a Theuluoedd hefyd yn cael ei ddosbarthu ar gyfer sylwadau i bob sefydliad sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol.

**HSS-06-00 : 8 Mawrth 2000**

Gosodwyd papur gerbron ar gwmpas Mesur Safonau Gofal gan yr Ysgrifennydd Cynulliad ac fe'i hatodir yn Atodiad A.

Atodir cyflwyniadau ysgrifenedig gan sefydliadau cyflwyno yn Atodiad B.

<u>NSPCC</u>

Prif bwyntiau'r cyflwyniad oedd:

- bod angen i gylch gorchwyl y Comisiynydd Plant fod yn eang;
- Dylai'r Comisiynydd fod yn gyfrifol am bob plentyn nid dim ond plant y gofelir amdanynt;
- Byddai adroddiad blynyddol gan y Comisiynydd a datganiadau effaith plant yn bwysig;
- Dylai'r Comisiynydd gael ei gynorthwyo gan dîm o staff. Dylai hyn gynnwys tri chomisiynwr cynorthwyol yn cwmpasu cyngor ym meysydd y gyfraith, ymchwil a chyfathrebu. Amcangyfrifwyd mai £700,000 i £750,000 fyddai'r gost y flwyddyn.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau:

- Ni theimlwyd bod unrhyw anghysonder yngln â'r swyddfa yn hybu dimensiwn plant ar lefel polisi a chynnal ymchwiliadau. Teimlwyd mai prosesau cyflenwol oeddynt.
- Byddai cyfathrebu yn rhan bwysig wrth sicrhau bod y Comisiynydd yn atebol i blant a phobl ifanc. Yr oedd llawer o ffyrdd y gellid datblygu cyfathrebu dwyffordd e.e. cynulliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer plant, safleoedd rhyngrwyd, ac ati.
- Prif rôl y Comisiynydd ddylai fod i sicrhau bod Cytundeb y CU ar Hawliau Plant yn cael ei roi ar waith yng Nghymru. Dylai pob gweithgaredd arall fod yn seiliedig ar hynny.
- Yr oedd argymhellion adroddiad Waterhouse yn awgrymu bod angen swyddog cwynion oedd yn annibynnol ar yr awdurdodau lleol.
- Byddai'n well pe bai'r pwerau statudol wedi'u cynnwys mewn un ddeddf yn unig i osgoi

dryswch.

- Byddai perthynas bwysig rhwng ysgolion a’r Comisiynydd.
- Dylai’r Comisiynydd fod â phroffil uchel ac yn berson y gallai plant ei edmygu a chysylltu ag ef/hi
- Byddai penodi Comisiynydd Plant Annibynnol yn broses anodd, ond dylai gynnwys panel o bobl ifanc.
- Dylai penodiad y Comisiynydd fod am gyfnod o bum mlynedd.

Coleg Brenhinol Paediatreg a Iechyd Plant

Prif bwyntiau’r cyflwyniad oedd:

- bod angen ymdrin â gwasanaethau iechyd plant mewn ffordd wahanol i wasanaethau oedolion.
- O dan Gytundeb y CU ar Hawliau Plant, yr oedd gan blant yr hawl i gael gwasanaethau iechyd effeithiol ac yr oedd angen monitro hyn.
- Dylid gofyn am farn plant ynghylch sut i fynd i’r afael â materion gofal iechyd.
- Yr oedd darpariaeth gwasanaethau iechyd i blant yng Nghymru’n amrywio’n fawr iawn.
- Yr oedd angen cynllunio gwasanaethau iechyd plant mewn ffordd strategol, gallai’r Comisiynydd Plant gyfrannu at y broses hon. Byddai’r Coleg Brenhinol yn gallu rhoi cyngor proffesiynol i’r Comisiynydd.
- Yr oedd angen gwybodaeth o ansawdd da. Y gobaith oedd y byddai Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru (GGIC) yn helpu i lenwi’r bylchau yn y cronfeydd gwybodaeth sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau:

- Gellid bod rôl gan y Comisiynydd o ran goruchwylio cwynion.
- Yr oedd angen mecanweithiau ar gyfer gwrando ar blant. Yr oedd angen nodi cyfrifoldebau’n eglur.
- Dylai fod gan y Comisiynydd rôl bwysig wrth fonitro Rhaglenni Gwella Iechyd.
- Dylai fod gan y Comisiynydd rôl wrth sicrhau bod gwasanaethau iechyd i blant yn addas a digonol, p’un ai yng Nghymru neu yn Lloegr y’u darparwyd.
- Ni fyddai’n bosibl i wasanaethau iechyd i blant yng Nghymru fod yn hunan-gynhaliol oherwydd daearyddiaeth Gogledd Cymru. Cafodd y rhan fwyaf o is-arbenigeddau eu darparu yn Lerpwl.
- Dylai’r Comisiynydd fod yn ddyfarnwr terfynol yn y broses gwyno yn hytrach nag ymchwilio i gwynion.

Cymdeithas Ymarferwyr Cymuned ac Ymwelwyr Iechyd

Prif bwyntiau’r cyflwyniad oedd:

- Y dylai fod gan y Comisiynydd bwerau statudol i edrych ar y strwythurau o fewn y gwasanaeth

iechyd a sut y maent yn effeithio ar blant.

- Yr oedd angen ystyried iaith a diwylliant plant wrth ddarparu gwasanaethau.
- Nid oedd gwasanaeth eiriolaeth o fewn y gwasanaeth iechyd i helpu plant gyda chwynion.
- Yr oedd llais plant o fewn y gwasanaeth iechyd yn wan iawn.
- Nid oedd unrhyw raglen hyfforddiant statudol ar gyfer nyrsys ysgol.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau.

- Gallai'r Comisiynydd helpu i godi proffil ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol.
- Dylai'r Comisiynydd fod yn bennaeth ar strwythur rhanbarthol a defnyddio profiadau yn deillio o achosion unigol yr oedd aelodau o'i staff yn ymdrin â hwy er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad polisi.
- Ystyriwyd ei bod yn bwysig bod gan weithwyr iechyd unigolyn annibynnol y gellid troi ato/ati gyda'u pryderon ynghylch gwasanaethau plant.
- Dylai fod gan y Comisiynydd rôl wrth ledaenu arfer da, yn enwedig mewn perthynas â phlant ag anghenion arbennig.
- Hwyrach y byddai angen i'r Comisiynydd ymwneud â materion traws-ffiniol megis gwasanaethau i blant yr oedd y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.
- Dylai'r Comisiynydd sicrhau bod y rhyddid i weithio o fewn y gymuned yn cael ei ddatblygu a bod iechyd cyhoeddus ar gael i bawb er mwyn gallu dod â phlant a ynyswyd i mewn i'r system.
- Byddai'r Comisiynydd yn chwarae rhan bwysig wrth ddod â'r sector gwirfoddol a'r sector statudol ynghyd i ddarparu cyngor un cam i rieni plant ag anableddau, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael.
- Nid oedd diffyg adnoddau yn ddadl dros beidio â chynnig gwasanaethau i blant.
- Yr oedd angen ymagwedd fwy strategol i wasanaethau iechyd plant yng Nghymru.

<u>Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru a Chomisiynydd Llywodraeth Leol Cymru</u>

Prif bwyntiau'r cyflwyniad oedd:

- bod plant yn gallu gwneud cwynion i'r Ombwdsmon ond yn anaml y gwnaethant hyn.
- Nid oedd yr Ombwdsmon/Comisiynydd yn ymgynghorydd nac yn eiriolwr polisi.
- Eu rôl oedd ymchwilio i gwynion a wnaed gan y cyhoedd lle roeddent wedi cael cam yn sgîl camweinyddu gan awdurdod cyhoeddus.
- Hwyrach y gallai fod rôl gan y Comisiynydd Plant i ymchwilio i gwynion nad oeddent yn dod o dan ei awdurdodaeth
- Yr oedd yr Ombwdsmyn yn ddiduedd.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol wrth ymateb i gwestiynau gan yr aelodau:

- Teimlwyd nad oedd y plant yn gwneud cwyn i'r Ombwdsmyn am nad oeddent yn ymwybodol

o’r broses.

- Ni ragwelwyd y byddai gwrthdaro buddiannau rhwng yr Ombwdsmyn a’r Comisiynydd Plant.
- Teimlwyd na fyddai’n bosibl datblygu system yn ôl pob tebyg lle y gallai plentyn a oedd am wneud cwyn am un o sefydliadau’r llywodraeth wneud hynny heb gymorth oedolion.
- Byddai’n anodd i’r Comisiynydd Plant fod yn ymchwilydd diduedd ac yn eiriolwr. Byddai’n bwysig egluro i’r cyhoedd yngln â rôl a chyfrifoldebau swydd y Comisiynydd Plant a ble y dylid anfon cwyn.
- Er nad oedd yn rhan benodol o’u cylch gorchwyl, byddai unrhyw gorff a oedd yn destun ymchwiliad a bod ganddo bolisi oedd yn methu â thrin plant fel bodau dynol yn cael ei amlygu.

Wrth ystyried papur yr Ysgrifennydd Cynulliad, yr oedd rhai aelodau yn pryderu y byddai naws a iaith y papur yn peri i asiantaethau allanol ei gamddeall. Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cynulliad eu sicrhau bod datganiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru ger bron T’r Cyffredin yn ei gwneud yn eglur yr edrychai am gyfle cynnar i ddeddfu ymhellach i roi pwerau statudol i gynigion y Cynulliad ar gyfer Comisiynydd Plant.

<u>Gweithredu</u>

Byddai copi o ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael eu dosbarthu i’r aelodau.

Byddai datganiad eglur yngln â’r cyfleon dros ddeddfu o fewn Mesur Safonau Gofal, y sail statudol ar gyfer swyddogaethau ehangach yn y dyfodol agos ac yn y tymor hwy yn cael eu darparu erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 16 Mawrth.

**HSS-07-00 : 16 Mawrth 2000**

Dyma’r ail sesiwn i’r Pwyllgor dderbyn cyflwyniadau llafar. Mae cyflwyniadau ysgrifenedig gan y sefydliadau sy’n cyflwyno yn Atodiad A.

<u>Dr Quentin Sandifer, Meddyg Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Morgannwg Health</u>

Prif bwyntiau ei gyflwyniad oedd:

- ardystio bod y Comisiynydd Plant yn cael pwerau statudol, ond na ddylai ei swyddogaeth statudol fynd y tu hwnt i blant o dan ofal y Gwasanaethau Cymdeithasol a’r rheini sy’n byw oddi cartref.
- Dylai’r Comisiynydd Plant fod yn annibynnol (heb fod o dan ddylanwad Gweithgor).
- Dylai’r Comisiynydd Plant gael 4 prif swyddogaeth:
    - cynghori a rhoi sylwadau ar bolisi, ond heb fod yn gyfrifol amdano;
    - meddu ar oruchwyliaeth strategol, gan gynnwys gweithredu’r Strategaeth Plant a chreu adroddiad blynyddol annibynnol;
    - goruchwylio amrywiaeth eang o weithrediadau statudol; a

    - gweithredu fel eiriolwr.
- Dylai'r Comisiynydd Plant fod â chyfrifoldeb uniongyrchol am benderfyniadau polisi.
- Ni ddylai unrhyw swyddogaeth cwynion yn ei gylch gorchwyl orgyffwrdd â rhai'r comisiynwyr cwynion statudol.
- Roedd adroddiad Waterhouse wedi ychwanegu brys, ond ni ddylid brysio'r datblygiad. Roedd cymryd amser wrth ymestyn cwmpas y swydd yn bwysig.
- Mae'n rhaid gwerthuso swyddogaeth y Comisiynydd Plant yn gywir.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- roedd yn bwysig nad oedd awdurdod statudol y Comisiynydd Plant yn cael ei wanhau o ganlyniad i bwerau cyfyngedig o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.
- Dylai'r Comisiynydd fod yn gysylltiedig â datblygu Rhaglenni Gwella Iechyd a strategaethau iechyd cyhoeddus eraill sy'n effeithio ar blant.
- Dylai ef/hi gynnwys plant yn y broses o wneud penderfyniadau polisi (Seneddau Plant ac ati).
- Dylai fod gan y Comisiynydd Plant y statws i fod yn awdurdodol a'r gallu i weithio gyda'r llywodraeth ar bob lefel.
- Dylai'r Comisiynydd fod yn gallu herio a chynghori ar faterion megis dyrannu adnoddau i gyrff statudol.
- Ni ddylai'r Comisiynydd roi sylwadau ac adroddiadau ar strategaethau statudol/sector gwirfoddol eraill, ond dylai fod yn sensitif i'r cyfyngiadau y mae'r asiantaethau yn gweithio o'u mewn.
- Ni fyddai unrhyw angen i'r Cynulliad drosglwyddo'r gwaith o ymchwilio i gwynion i'r swydd newydd hon sydd heb ei phrofi. Fodd bynnag, hwyrach y bydd lle i arolygu gweithdrefnau cwynion ar gyfer plant, ac ystyried a allai'r Comisiynydd ymdrin ag achosion prawf.

<u>Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Orllewin Cymru</u>

Gwnaed y cyflwyniad o safbwynt nyrsys yn gweithio gyda phlant. Y prif bwyntiau oedd:

- Cytundeb:
- ar gyflwyno'r swydd cyn gynted â phosibl gyda phwerau statudol llawn;
- bod gan y Comisiynydd Plant rôl strategol gan weithredu fel gwarchodwr;
- ni ddylai ef/hi ymdrin ag ymchwilio i gwynion, ond yn hytrach gweithredu fel ymchwiliwr pan fetho pawb arall.
- Roedd anghyfartaledd gwasanaethau ledled Cymru o ganlyniad i'r:
- trafferthion yn ymwneud â daearyddiaeth y rhanbarth;
- y gwasanaethau gwahanol a roddir i blant ac oedolion; a'r
- gwahanol lefelau o wasanaethau plant sydd ar gael mewn gwahanol ardaloedd;
- yng Ngogledd Cymru roedd ambell ysbyty wedi'i gwasgaru dros sawl safle; a
- hefyd yng Ngogledd Cymru, gallai plant Cymraeg eu hiaith fod o dan anfantais.
- Ymddengys bod plant yn flaenoriaeth isel ac o dan anfantais mewn darpariaeth gofal iechyd.
- Roedd gwasanaethau plant yn gynyddol ddibynnol ar nawdd elusen

- Ni ddylai twf parhaus ddibynnu ar nifer fechan o unigolion.
- Gallai'r effaith ar deuluoedd pan dderbynnir plentyn i ysbyty fod yn bellgyrhaeddol. Gallai olygu teuluoedd yn chwalu a phroblemau iechyd y meddwl y gallai'r teulu fod angen cyngor yn ei gylch.
- Dylai rôl y Comisiynydd gynnwys gwrando ar blant, a'u teuluoedd, yn enwedig y rhai hynny ag anghenion arbennig fel teithwyr, rhai sâl ac anghenus, a gweithredu fel eiriolwr iddynt.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Ar fater bod yn ymchwiliwr pan fetho pawb arall, dylai'r Comisiynydd fod yn gysylltiedig pan fydd gweithdrefnau cwyno eraill yn methu yn unig.
- Dylai'r Comisiynydd Plant fod yn gysylltiedig â datblygiad polisi i atal plant rhag cael eu cam-drin.
- Byddai'n bwysig wrth weithredu fel eiriolwr mewn perthynas â phenderfyniadau y gellid eu herio yn y llys, i'r Comisiynydd sicrhau ei fod ef/hi wedi gweithredu'n gywir.
- Gallai tensiynau fodoli rhwng dymuniadau plentyn a dymuniadau ei deulu. Mewn achos fel hyn dylai'r Comisiynydd wrando ar y plant a gwneud penderfyniad cytbwys yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd.

Dosbarthwyd papur arall gan yr Ymddiriedolaeth NHS yn seiliedig ar eu cyflwyniad i'r Pwyllgor.

Voices from Care

Prif bwyntiau eu cyflwyniad oedd:

- Dylai'r Comisiynydd Plant ddechrau cyn gynted â phosibl, ond dylai ystyriaeth bwyllog gael ei rhoi i'w bwerau/phwerau. Roedd yn bwysig bod y pwerau hyn yn cynnwys yr holl swyddogaethau statudol allweddol; roedd plant mewn gofal wedi cael eu siomi gan oedolion ac nid oeddent yn ymddiried mewn systemau oedolion. Ni ddylid ystyried y Comisiynydd fel person biwrocrataidd a dylai ef/hi fod yn berson y gellir ymddiried ynddo/ynddi a all gadw cysylltiad â phobl ifanc a sefydlu perthynas gyda'r rhai sydd mewn angen.
- Dylai'r Comisiynydd feddu ar ddigon o bwerau i barhau yn y cyfamser, tra'n aros i weithdrefn ymgynghori a deddfwriaethol y Cynulliad gael ei chwblhau.
- Dylai fod gan blant lwybr anffurfiol i'r Comisiynydd.
- Dylai'r Comisiynydd gydweithredu gydag asiantaethau a phartneriaethau fel Voices from Care, y mae plant yn credu ynddynt.

Mewn ymateb i'r cwestiynau gan yr Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Dylai'r Comisiynydd fod yn atebol i'r Cynulliad yn y lle cyntaf.
- Efallai mae argymhelliad Adroddiad Waterhouse o sefydlu swyddogion cwynion mewn awdurdodau lleol fydd y ffordd o oresgyn cyfyngiadau y comisiynwyr cwynion statudol, yn

hytrach na bod y Comisiynydd yn gweithredu fel ‘Uwch Ombwdsmon". Fodd bynnag, gallai’r Comisiynydd fod yn ddewis pan fetho bawb arall ar gyfer cwynion i’r rheini a oedd yn anfodlon â’r llwybrau arferol.

- O ran y llwybr anffurfiol arfaethedig i blant, byddai angen i’r Comisiynydd ddeall materion gwerin gwlad a bod yn eithriadol o hygyrch. Gallai Voices from Care ddarparu barn bellach ar strwythurau a rolau.
- Dylai fod ymagwedd o’r gwaelod i fyny tuag at benodi’r Comisiynydd Plant. Dylai pobl ifanc gael eu cynnwys yn y broses ddethol, gyda’r person sy’n cael ei ddewis yn canolbwyntio ar blant. Yn fwyaf pwysig, ni ddylai’r Comisiynydd weithio o fewn amgylchedd rhy gyfyngedig ond yn hytrach meithrin prosesau sy’n gyfeillgar i’r defnyddiwr.
- Mae’n rhaid i’r Comisiynydd fod â delwedd glir, bod yn gredadwy a gallu defnyddio’r cyfryngau yn y modd mwyaf manteisiol.
- Byddai’n hanfodol i’r Comisiynydd barchu cyfrinachedd plentyn.

<u>Tim Brown, Ysgrifennydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol</u>

Prif bwyntiau ei gyflwyniad oedd:

- bod tri maes pwysig iawn i waith y Comisiynydd Plant:
- fel llais i blant wrth wneud penderfyniadau sy’n effeithio arnynt;
- uno deddfwriaeth a pholisïau newydd yn effeithiol; a
- fel datgelydd cyfrinachau.
- Dylai’r meysydd eraill gynnwys:
- gweithrediadau’r Swyddfa Gartref megis mewnfudo a cheisio lloches;
- plant ag anghenion arbennig, plant anabl a phlant diamddiffyn am resymau eraill; ac
- arolygon o adroddiadau achosion diogelu plant o dan Rhan VIII Deddf Plant 1989.
- Dylai gweithrediadau’r Comisiynydd fod yn statudol a dylai ef/hi gael ei gefnogi gan staff profiadol, a grp ymgynghorol o bosibl gyda chynrychiolaeth o bobl ifanc. Fodd bynnag, ni ddylai’r system fod yn un fiwrocrataidd.
- Dylai fod gan y Comisiynydd gysylltiadau da â’r Sector Gwirfoddol ac asiantaethau eraill megis Childline.

Mewn ymateb i’r cwestiynau gan yr Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Byddai’r Comisiynydd Plant fwy na thebyg mewn gwell sefyllfa i ddefnyddo’r gweithdrefnau cwyno a chydlynu gwaith swyddogion cwynion awdurdodau lleol yn hytrach na gwneud y gwaith hwn yn uniongyrchol. Fodd bynnag, gallai’r Comisiynydd hefyd fod yn ymchwiliwr pan fetho pawb arall os bydd pob llwybr ymchwilio arall yn methu.
- Dylai cysylltiadau’r Comisiynydd â swyddogion cwynion awdurdodau lleol fod yn dryloyw ac yn agored. Gallai ef/hi nodi themâu sy’n dod i’r amlwg o adroddiadau blynyddol swyddogion cwynion awdurdodau lleol.
- Dylai’r Comisiynydd fod yn atebol i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad, gan bwysleisio

pwysigrwydd y swydd a natur traws-bynciol materion plant.
- Dylid annog plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol i gyflwyno eu problemau a dylai’r Comisiynydd Plant sicrhau nad oes unrhyw un yn syrthio trwy’r rhwyd. Mae hwn yn faes sy’n achosi pryder o fewn lleoli teuluoedd ar hyn o bryd.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

Prif bwyntiau eu cyflwyniad oedd:

- Dylai fod gan y Comisiynydd Plant gyfarwyddyd realistig, yn ehangach nag yr argymhellwyd trwy’r Mesur Safonau Gofal os oes modd, gyda lefelau digonol o arian i gefnogi ei waith/ei gwaith.
- Gallai’r Comisiynydd gynghori ar bolisi ac archwilio deddfwriaeth.
- Byddai angen ystyried unrhyw swyddogaethau ymchwilio yn ofalus, neu fe allai gymryd gormod o amser.
- Dylai’r Comisiynydd hyrwyddo ochr gadarnhaol y llwyfan ieuenctid yng Nghymru.
- Roedd hawl y plentyn i addysg dda a chyfleoedd yn bwysig (yn enwedig i’r gymuned deithiol).
- Dylai ysgolion "hysbysebu" y Comisiynydd Plant a hyrwyddo hygyrchedd. Gellid gwneud hyn trwy’r Rhyngrwyd a’r Grid Cenedlaethol Dysgu.
- Dylai’r Comisiynydd fod yn rhan o gynlluniau datblygu cymunedau y byddai angen i awdurdodau lleol eu creu o dan ddeddfwriaeth newydd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd y WLGA yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Phlant yng Nghymru ynglŷn â chyfrifoldebau newidiol cynghorwyr o ganlyniad i foderneiddio llywodraeth leol. Gallai’r Comisiynydd Plant roi cyngor ar y ffordd orau o weithredu themâu traws-bynciol.
- Hwyrach y gallai’r Comisiynydd edrych ar y system ar gyfer apeliadau addysg arbennig oedd ar sail Cymru / Lloegr ar hyn o bryd.
- Roedd pwy y dylai’r Comisiynydd Plant fod yn atebol iddo yn anodd i’w benderfynu .
- Dylai fod gan y Comisiynydd swyddogaeth eang ar draws materion plant.
- Dylid hysbysu’r Comisiynydd o argymhellion ariannu awdurdodau lleol (er y gallai hyn gymryd amser).

Barnados

Prif bwyntiau eu cyflwyniad oedd:

- Roedd 4 prif faes i fynd i’r afael â hwy:

    - hawliau plant o dan gonfensiwn y CU;

- annibyniaeth y Comisiynydd Plant;

- pwerau strategol y Comisiynydd; ac

- yr adnoddau sy'n angenrheidiol i gynnal y swydd.

- Ni fyddai'r ddeddfwriaeth a argymhellwyd yn y Mesur Safonau Gofal yn mynd yn ddigon pell.
- Dylai fod yna bersbectif hawliau plant i bob plentyn yng Nghymru.
- Dylai'r comisiynydd fod yn atebol i'r Llywydd, o ystyried ei annibyniaeth wleidyddol.
- Dylid penodi ar sail pum mlynedd adnewyddol. Dylai'r broses fod yn dryloyw a chynnwys pobl ifanc.
- Dylai'r rhaglen waith gael ei phenderfynu gan y Comisiynydd Plant (gallai'r Cynulliad gael cyngor gan y Comisiynydd ond ni ddylai roi gwaith iddo/iddi).
- Dylid sefydlu'r strwythurau i gefnogi'r Comisiynydd o'r cychwyn a gallai gynnwys grwpiau llywio. Gallai pobl ifanc o gefndiroedd wedi eu heithrio'n gymdeithasol fod yn bwysig i'r swyddogaethau hyn.
- Dylai'r Comisiynydd fod yn annibynnol a meddu ar rôl ymchwilio ac archwilio o fewn Cymru. Gallai ef/hi lansio a/neu gomisiynu ymchwiliadau, cael y per i gael mynediad i ddogfennau a holi unigolion. Dylai ef/hi fod yn gallu sicrhau y cymerir camau yn dilyn canfyddiadau.
- Yn ogystal gallai'r Comisiynydd gynghori ar ddatblygiad model o ddatganiad effaith plentyn yn ymwneud â newidiadau mewn polisi.
- dylai ef/hi gysylltu â'r sector gwirfoddol, asiantaethau a chyrff cyhoeddus, a bod yn broactif gyda'r cyfryngau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Byddai o fudd petai'r Comisiynydd Plant yn gallu dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth y DU sy'n effeithio ar blant yng Nghymru, yn ogystal â pholisi o fewn Cymru.
- Er na fyddai'r Comisiynydd yn uniongyrchol gysylltiedig â phenderfyniadau ariannol, gallai ef/hi weithredu fel eiriolwr hawliau plant, gan ddadansoddi'r symiau sy'n cael eu gwario ar wasanaethau penodol monitro lefelau'r adnoddau, er enghraifft adeiladau ysgol.
- Dim ond gyda chaniatâd y plentyn y dylai'r Comisiynydd gael mynediad i wybodaeth gyfrinachol (cofnodion meddygol ac ati).
- Hyrwyddo hawliau plant ddylai fod yn brif swyddogaeth i'r Comisiynydd.

**HSS-08-00 : 22 Mawrth 2000**

4.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i aelodau o'r Pwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar. Cyflwynwyd papur a oedd yn amlinellu materion allweddol i'w trafod i'r cyfarfod ac fe'i ceir yn Atodiad B.

4.2 Dywedodd Jane Hutt y byddai cyfle ar 5 Ebrill i'r Pwyllgor ystyried cynigion ar gyfer gwelliant i'r

Mesur Safonau Gofal. Byddai angen mwy o amser ar y Pwyllgor i gywreinio ei gynigion ei hun yngln â rôl lawn y Comisiynydd. Byddai angen i adroddiad y pwyllgor gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad ym mis Mai neu fis Mehefin.

4.3 Dywedodd Rosemary Butler nad oedd y Pwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar yn cael ei gyfyngu gan y Mesur, ond byddai angen mwy o amser i ystyried Addysg ac agweddau ar rôl y Comisiynydd nad oeddent yn ymwneud ag Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

<u>Prif bwyntiau i'w trafod</u>

***Swyddogaethau – Rôl Ymchwiliol***

- Ni ddylai'r Comisiynydd fod yn 'ymchwilydd pan fetho pawb arall', ond dylai fod â'r gallu i ymchwilio i unrhyw achos prawf a ddisgynnai y tu allan i weithdrefnau cwyno cyfredol, neu a allai gael effaith arwyddocaol ar bolisi.
- Fel man cyswllt cyntaf, gan gynnig cyngor i blant i'w harwain trwy'r gweithdrefnau cwyno cyfredol fyddai'r rôl. Dylai'r Comisiynydd fod â'r per i ddechrau ymchwiliadau, hyd yn oed os na wnaed cwyn, ynghyd â'r per i fynnu bod gwybodaeth yn cael ei datgelu lle bo hynny'n briodol.
- Yr oedd angen sefydlu mecanweithiau hefyd fel nad oedd modd i'w hargymhellion gael eu hanwybyddu.
- Dylai'r Comisiynydd oruchwylio polisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu buddiannau gorau plant yn ddigonol, ond ni ddylai ymwneud ag achosion unigol yn gyffredinol.
- Rôl bwysig y Comisiynydd fyddai sicrhau bod system eiriolaeth effeithiol yn cael ei gweithredu ledled Cymru, yn enwedig o ran cynrychioli hawliau plant nad oes ganddynt rieni/pobl i siarad ar eu rhan.

***Swyddogaethau Eraill***

- Dylai'r Comisiynydd fod yn rhagweithredol yn hytrach nag adweithiol.
- Er bod angen iddo/iddi fod yn arweinydd y gall plant ei (h)edmygu, ni fyddai'n rôl y gall unigolyn enwog ymgymryd â hi. Ond hwyrach y gallai unigolyn enwog fod yn noddwr.
- Byddai rôl arwyddocaol i ysgolion o ran hybu rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd.
- Dylai fod â'r gallu i ddylanwadu ar bolisïau ar gyfer gwasanaethau plant a hefyd sicrhau bod sefydliadau yn cydweithio.
- Dylai fod gan y Comisiynydd yr hawl statudol i fod yn bresennol mewn unrhyw ymchwiliad i achosion o gam-drin plant yng Nghymru os dymunai.
- Ni ddylai ymwneud â datblygu ac arolygu datganiadau effeithiau ar blant, ond hwyrach y gallai ddatblygu model o arfer da a hwyluso hyfforddiant i bob sefydliad sydd yn ymwneud â'u paratoi.

***Atebolrwydd***

- Dylai fod yna broses barhaus o gytuno ar flaenoriaethau'r Comisiynydd gyda phlant o bob oed.
- Yn gyffredinol, byddai'r Comisiynydd cynrychioli pobl ifanc hyd at 18 oed, ond gellid gwneud eithriad yn achos pobl ifanc hn sydd ag anawsterau dysgu difrifol.
- Ni ddylai'r Comisiynydd fod yn swyddog etholedig, a dylai fod yn wleidyddol annibynnol. Dylai fod yn atebol i'r Cynulliad, (er bod angen eglurhad pellach yngln â phwy a fyddai'n atebol iddo/iddi yn union), a byddai'n darparu adroddiad blynyddol.
- Dylid ystyried sefydlu Cyngor Ymgynghorol ar gyfer Gwasanaethau Plant yng Nghymru fel yr argymhellir yn Adroddiad Waterhouse a dylai plant gymryd rhan yn hynny. Gallai'r Comisiynydd ymgynghori â'r Cyngor ar ei r(h)aglen waith.

***Penodi***

- Dylai'r Comisiynydd gael ei benodi trwy benderfyniad y Cynulliad cyfan am hyd at 7 mlynedd o bosibl. Byddai hynny yn creu sefydlogrwydd

- Dylai plant gymryd rhan yn yr ymarfer penodi, a dylid gofalu bod cydraddoldeb o ran oedran, rhyw, grwpiau ethnig yn hynny o beth.
- Dylid penodi cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn trafod cwmpas y gwelliant arfaethedig i Fesur Safonau Gofal yn ei gyfarfod nesaf.

Gweithredu

Gofynnwyd i'r Swyddogion roi cyngor ar y canlynol:

- y modd y mae'r Comisiwn Cyfleodd Cyfartal a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn gweithredu, a pha bwerau cyfarwyddo sydd ganddynt dros gyrff nad ydynt yn rhai a ariennir ag arian cyhoeddus;
- sut y gallai'r Comisiynydd gydgysylltu ag asiantaethau diogelu plant eraill, e.e. Childline;
- pa bwerau y gallai fod gan y Comisiynydd i gynrychioli pobl ifanc o Gymru sydd yn derbyn gofal neu wasanaethau eraill yn Lloegr;
- rhoi cymorth ariannol i blentyn a chanddo gyn;
- pwerau'r Comisiynydd o ran y gwasanaethau nad ydynt yn rhai datganoledig, gan gynnwys goblygiadau'r per o fynnu bod gwybodaeth yn cael ei datgelu;
- cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol, cynlluniau eiriolaeth lleol a chynlluniau gwirfoddol lleol i sicrhau un llwybr cydlynus i'r Comisiynydd;
- y gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan wledydd eraill wrth benodi Comisiynydd Plant;
- cyngor cyfreithiol ar allu'r Cynulliad i benodi Comisiynydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru;
- blaenoriaethau o ran cymwysterau, profiad a rhinweddau personol a ddylai fod gan ymgeiswyr.

**HSS-09-00 : 5 Ebrill 2000**

3.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith caled wrth gynhyrchu'r papur mewn byr amser.

Prif Bwyntiau'r Drafodaeth

3.2 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Dylid cysylltu'r Comisiynydd yn agos â'r Cynulliad.
- Yr oedd y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn cynnig model derbyniol. Fodd bynnag, byddai'n bwysig diogelu statws annibynnol y Comisiynydd. Er y dylai fod gan y Cynulliad yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad yn ffurfiol, dylai'r Comisiynydd fod â'r hawl i'w wrthod, ar yr amod ei fod/bod yn egluro'r rhesymau'n ffurfiol i'r Cynulliad dros wneud hynny. Trwy benderfyniad y Cynulliad y dylid penodi neu ddiswyddo Comisiynydd.
- Dylai Comisiynydd gael ei benodi am gyfnod o 7 mlynedd na ellir ei adnewyddu.
- Yr oedd angen mewnbwn ystyrlon gan bobl ifanc yn y broses benodi.
- Ni ddylid dosbarthu oedolion ifanc ag anableddau dysgu difrifol yn blant a gofynnwyd am gadarnhad pellach yngln â diffiniad plentyn.
- Cydnabuwyd argymhellion y Cynulliad am Gomisiynydd Plant gan Lywodraeth y DU a dylid ceisio cyfle cynnar i gael deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer yr ystod lawn o bwerau.
- Yr oedd yn bwysig bod pob un o'r pwerau angenrheidiol yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth. Nid oedd y pwyllgor am i weithgareddau yn y dyfodol gael eu cyfyngu oherwydd drafftio diffygiol yn y ddeddfwriaeth.
- Y farn oedd bod y bwriad i benodi Comisiynydd erbyn diwedd y flwyddyn galendr yn un rhesymol ac yr oedd yn hanfodol nad oedd yr amserlen hon yn llithro;
- Byddai angen trafodaeth bellach yngln â swyddfa'r Comisiynydd yn nes ymlaen.

3.3 Byddai'r Swyddogion yn casglu'r yr holl gynigion ynghyd ac wedyn ddechrau ar drafodaethau manwl gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr Adran Iechyd a'r Cwnsler Seneddol. Y disgwyl oedd y byddai'r diwygiad i'r Mesur Safonau Gofal a fyddai'n darparu pwerau rhagarweiniol yn cael ei gyflwyno gerbron Pwyllgor T'r Cyffredin yn ystod mis Mai.

Gweithredu

3.4 Byddai Chris Burdett yn diffinio plentyn fel y'i nodwyd yn y Ddeddf Plant i'r aelodau.

**HSS-10-00 : 17 Mai 2000**

4.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau wneud penderfyniadau ar y meysydd a oedd yn weddill lle gofynnwyd am gyngor pellach, fel y nodir yn Atodiad A o'r adroddiad, ac i roi sylwadau ar yr adroddiad drafft. Croesawodd Lorraine Barrett, aelod o'r Pwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar a diolchodd iddi am ddod i gynrychioli argymhellion y Pwyllgor Cyn 16.

4.2 Atgoffodd yr Ysgrifennydd Cynulliad yr aelodau am y cyfnod amser cyfyng am fod Adroddiad y Pwyllgor i'w drafod yn y Sesiwn Lawn ar 7 Mehefin.

Prif Bwyntiau'r Drafodaeth

4.3 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Roedd yr aelodau yn bryderus y byddai penodiad y Comisiynydd yn cael ei ohirio os na fyddai'r Mesur Safonau Gofal yn derbyn Caniatâd Brenhinol cyn gwyliau'r haf.
- Roedd yr aelodau'n anfodlon nad aed i'r afael â chydymffurfio, yn arbennig mewn meysydd y gellid gofyn i'r Comisiynydd ddarparu cyngor o dan Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru arnynt.
- Dylid ystyried lleoli swyddfa'r Comisiynydd yng Ngogledd Cymru.
- Yn ymwneud â phwyntiau yn Atodiad A:

***(ii) Statws, Staff Arall ac Ariannu:*** Roedd rhai aelodau o'r farn y gallai'r amcangyfrif o £739,000 fod yn annigonol; roedd eraill o'r farn ei fod yn rhesymol yng ngoleuni lefelau gwariant mewn gwledydd eraill.

***(iii) Manyleb Person:*** Byddai'n annerbyniol i ymgeiswyr gael eu gwrthod oherwydd unrhyw gyfranogiad gwleidyddol yn y gorffennol. Yn lle hyn dylid asesu'r ymgeiswyr ar eu gweithgareddau gwleidyddol presennol, os o gwbl.

***(iv) Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc***: Dylid diwygio'r geiriad fel ei fod yn glir bod plant a phobl ifanc a wahoddir i roi eu barn "yn gallu cynrychioli holl blant Cymru".

***(v) Swyddogaethau heb eu Datganoli:*** Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau sy'n cael eu darparu i blant yng Nghymru wedi eu datganoli i'r Cynulliad.

***(vi) Cyfranogiad Trawsffiniol:*** Awgrymwyd y dylai cylch gorchwyl y Comisiynydd i wasanaethau sy'n cael eu darparu yn Lloegr ar gyfer plant sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, yn enwedig os nad oedd y gwasanaethau ar gael yng Nghymru.

***(viii) Pwerau Gorfodaeth***: Roedd rhai aelodau yn anghytuno eu bod wedi rhoi caniatâd i'r Comisiynydd i beidio â chael pwerau gorfodaeth yn flaenorol. Derbyniwyd mai dim ond trwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn unig y gellid cyflawni hyn.

4.4 Y casgliadau y daeth y Pwyllgor Cyn 16 iddynt oedd:

- Dylai'r Comisiynydd fod yn annibynnol ar y Pwyllgor Gweithredol ac na ddylai orfod llofnodi'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol.

- Roedd y fanyleb person yn Atodiad A wedi ei llunio yn rhy gaeth a byddai'n cyfyngu ar yr ymgeiswyr posibl. Argymhellwyd y gwelliannau canlynol:

  Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar *ddealltwriaeth a gwybodaeth* o hawliau dynol plant ac o beidio â chamwahaniaethu;

  dylai *ennill parch* y cyhoedd, gan gynnwys plant, y llywodraeth ar bob lefel, a chyrff eraill;

  dylai feddu ar *ddealltwriaeth a gwybodaeth* o strwythurau a lefelau gwahanol llywodraeth sy'n effeithio ar blant ond ni ddylai fod yn rhy ymrwymedig i un gwasanaeth neu sector.

- Mae'r Pwyllgor Cyn 16 yn dymuno cael eu cynrychioli ar y panel penodi.
- Byddai angen adroddiad blynyddol.
- Roedd ymgynghori â phlant yn y broses benodi yn hanfodol. Gellid cysylltu â hwy trwy Lais yr Ifanc a thrwy Gynulliad yr Ifanc.
- Roedd yr adroddiad yn ffafrio gwasanaethau cymdeithasol. Dylid bod mwy o bwyslais ar addysg.

Roedd yr aelodau yn cyd-fynd â'r casgliadau hyn.

Ymateb

4.5 Mewn ymateb i'r pwyntiau a wnaed gan yr aelodau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad:

- Bod angen dealltwriaeth glir o rôl y Comisiynydd cyn bod y weithdrefn benodi yn dechrau. Ni ddylid dechrau'r broses benodi cyn derbyn Caniatâd Brenhinol.
- Ychwanegodd Helen Thomas mai dim ond tan Hydref 2000 y dylai'r Caniatâd Brenhinol gael ei ohirio os byddai'r Mesur yn parhau hyd yr hydref.
- Yn y cyfamser, gellid gwneud gwaith paratoadol er mwyn hysbysebu swydd y Comisiynydd cyn gynted â bod y Caniatâd Brenhinol yn cael ei roi.
- Gyda gweithredoedd heb eu datganoli, roedd Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn caniatáu i gynrychioliadau priodol gael eu gwneud ar faterion sy'n effeithio ar Gymru. Yn ogystal, cynghorodd Mark Partridge y gallai'r Comisiynydd roi cyngor i'r Cynulliad ar weithredoedd wedi eu datganoli o dan Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ond na fyddai ganddo bwerau archwiliadol.
- Wrth ymdrin ag achosion trawsffiniol, byddai'n rhesymol i'r Comisiynydd roi sylwadau ar pam na ellid darparu'r gwasanaeth yng Nghymru, ond efallai y byddai teimladau sensitif yngln ag ef/ hi yn archwilio'r gwasanaeth ei hun.
- Dylai plant fod yn rhan o'r broses benodi cyhyd â phosibl. Yn ogystal, dylid cynrychioli plant gymaint â phosibl gan gynnwys plant anabl a rhai o grwpiau ethnig.
- Roedd y fanyleb person a nodwyd yn Atodiad A yn adlewyrchu awgrymiadau Plant yng Ngymru. Byddai angen gwneud mwy o waith ar y pwnc hwn.

- Efallai y bydd angen diwygio’r adroddiad ar ôl y drafodaeth yn y Sesiwn Lawn.

4.6 Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n croesawu cyfraniadau yn ystod y Sesiwn Lawn gan y bobl nad oeddent yn gysylltiedig â’r adroddiad eisoes, ac awgrymodd y byddai cyfraniadau yn cael eu hannog trwy’r Pwyllgor Busnes a Grwpiau’r Pleidiau.

<u>Gweithredu</u>

4.7 Yng ngoleuni’r drafodaeth, awgrymodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y gwelliannau canlynol i’r adroddiad a chamau gweithredu pellach:

- Dylid egluro goblygiadau unrhyw oedi wrth gael Caniatâd Brenhinol i’r Mesur Safonau Gofal yn yr adroddiad.
- Dylid cynnwys cyfeiriad at Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad, a dylid sôn am y rôl yn ymwneud â phlant wedi eu lleoli y tu allan i Gymru lle ceir darpariaeth annigonol o wasanaethau ar gyfer Plant yng Nghymru.
- Mae angen gwelliant bach i baragraff 34 o’r adroddiad. Dylai nawr ddarllen:

> "….Yn amlwg ni allai plant a phobl ifanc o’r fath gynrychioli holl blant Cymru <u>*yn llawn*</u>……"

- Dylid ailystyried yr angen i’r Comisiynydd lofnodi’r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol.
- Dylai Helen Thomas a Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol ddarparu cyngor ysgrifenedig pellach yn ymwneud â phwerau gorfodaeth y Comisiynydd.
- Dylai’r gwaith gydag aelodau y tu allan i’r Pwyllgor barhau. Dylai’r adroddiad ddychwelyd ar gyfer trafodaeth yng Nghyfarfod nesaf y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 25 Mai.

4.8 Daeth y Cadeirydd i’r casgliad bod angen cyngor pellach yn ymwneud â phwerau gorfodi’r Comisiynydd. Cytunodd bod angen clir am ddulliau y tu allan i Gyfarfodydd Pwyllgor i drafod hyn ymhellach. Dylai’r aelodau gyflwyno eu cynrychiolaethau i’r Ysgrifennydd Cynulliad.

4.9 Nid oedd aelodau Plaid Cymru yn derbyn yr adroddiad drafft fel yr oedd, na’r cyngor yn Atodiad A. Os na wneir newidiadau, byddai’r blaid yn gwrthod yr adroddiad yn y Sesiwn Lawn.

4.10 Ategodd y Cadeirydd bod yn rhaid clirio’r adroddiad ar 25 Mai os yw i gael ei gyflwyno erbyn 31 Mai.

4.11 Diolchodd y Cadeirydd i Lorraine Barrett am ei chyfraniad a chyfraniad y Pwyllgor Cyn 16.

**HSS-11-00 : 25 Mai 2000**

*[Nid oedd y Pwyllgor wedi penodi'r cofnodion hyn pan osodwyd yr adroddiad hwn.]*

3.1 Diolchodd y Cadeirydd i Lorraine Barrett, aelod o’r Pwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion a Dysgu Cynnar.

3.2 Eglurodd y Cadeirydd fod yr adroddiad wedi’i ailddrafftio yng ngoleuni materion a godwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 17 Mai. Roedd yr holl ddiwygiadau wedi’u nodi.

3.3 Diolchodd yr Ysgrifennydd Cynulliad i bawb a oedd wedi gweithio ar yr adroddiad yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Cyflwynodd y pwyntiau canlynol mewn ymateb i bwyntiau gan aelodau:

- Diwygiwyd paragraffau 49/50 i adlewyrchu cyngor Catriona Williams, Prif Weithredwraig Plant yng Nghymru yn arbennig, yr oedd yr Ysgrifennydd Cynulliad wedi cyfarfod â hi yr wythnos diwethaf.
- Dylid trin y rhan a chwaraeir gan blant, yn arbennig yn y broses benodi, a’r argymhelliad yn adroddiad Waterhouse i sefydlu Cyngor Ymgynghorol fel materion ar wahân.
- Roedd y Diwygiad i’r Mesur Safonau Gofal yn cwmpasu amrediad cyfan y Mesur ac nid yn unig plant y gofelir amdanynt gan awdurdodau lleol. At hyn, roedd y Pwyllgor eisoes wedi cydnabod y dylai cylch gorchwyl y Comisiynydd gwmpasu’r holl wasanaethau sy’n effeithio ar blant yng Nghymru. Man cychwyn oedd darpariaethau’r Mesur, ac roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymwybodol o argymhellion y Pwyllgor am ddeddfwriaeth sylfaenol bellach ar wahân.

3.4 Roedd yr aelodau’n cytuno â’r diwygiadau a wnaed, gan gynnwys ychwanegu rhagair y Cadeirydd. Cydnabuwyd y gwaith caled a wnaed i newid yr adroddiad.

3.5 Diolchodd y Cadeirydd i Chris Burdett a’i gydweithwyr am ymateb mor gyflym i geisiadau’r Pwyllgor am newidiadau i’r adroddiad. Byddai’r adroddiad yn cael ei gyflwyno’n ffurfiol ar 31 Mai a’i drafod yn y Sesiwn Lawn ar 7 Mehefin.